



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

***BIL DEDDFAU TRETHI CYMRU etc.  
(PŴER I ADDASU)***

Memorandwm Esboniadol  
yn ymgorffori'r  
Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r  
Nodiadau Esboniadol

***Mehefin 2022***

## **Bil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu)**

### **Memorandwm Esboniadol ar gyfer Bil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu)**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Grŵp yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad, Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru.

Cafodd ei lunio a'i osod yn wreiddiol yn unol â Rheol Sefydlog 26.6 ym mis Rhagfyr 2021, a gosodir yn awr Femorandwm diwygiedig yn unol â Rheol Sefydlog 26.28.

### **Datganiad yr Aelod**

Yn fy marn i byddai darpariaethau Bil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) a gyflwynwyd gennyf ar 13 Rhagfyr 2021, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

Rebecca Evans AS  
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol  
Yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil

28 Mehefin 2022

# Cynnwys

<b>RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL</b>	<b>3</b>
1. Disgrifiad	3
2. Cymhwysedd Deddfwriaethol	3
3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael	4
4. Ymgynghori	19
5. Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth	22
<b>RHAN 2 – ASESIAID EFFAITH RHEOLEIDDIOL</b>	<b>27</b>
6. Aseiad Effaith Rheoleiddiol	27
7. Opsiynau	31
8. Costau a Manteision	35
9. Asesu'r Gystadleuaeth	46
10. Crynodeb o'r Aseiad Effaith Integredig	47
11. Adolygu ar ôl gweithredu	51
<b>Atodiad 1: Nodiadau Esboniadol</b>	<b>52</b>
<b>Atodiad 2: Mynegai o ofynion y Rheolau Sefydlog</b>	<b>57</b>

# RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL

## 1. Disgrifiad

- 1.1 Bwriedir i Fil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) (“y Bil”) gyflwyno pŵer i alluogi i rai elfennau o ddeddfwriaeth trethi Cymru gael eu diwygio yn y dyfodol, pan fydd angen. Mae'r Bil yn rhoi pŵer i wneud rheoliadau i Weinidogion Cymru i'w galluogi i addasu Deddfau Trethi Cymru<sup>1</sup> (ac is-ddeddfwriaeth a wneir oddi tanynt) mewn amgylchiadau penodol. Bydd y pŵer hwn i wneud rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft neu'r weithdrefn gadarnhaol ‘gwnaed’, yn dibynnu ar frys y rheoliadau.
- 1.2 Mae'r Bil yn ceisio taro cydbwysedd rhwng rhoi mecanwaith i Weinidogion Cymru i ymateb i ddigwyddiadau allanol sy'n effeithio ar drethi datganoledig a'r referniw cysylltiedig gan gydnabod yr un pryd rôl hanfodol Senedd Cymru (“y Senedd”) wrth graffu ar Lywodraeth Cymru a'r ddeddfwriaeth y mae'n ei chyflwyno.

## 2. Cymhwysedd Deddfwriaethol

- 2.1 Mae gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol i wneud y darpariaethau ym Mil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) yn unol â Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017.

---

<sup>1</sup> Er mwyn bod yn gryno, mae'r ddogfen hon yn defnyddio'r label “Deddfau Trethi Cymru” i ddisgrifio Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 a Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 a'r is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Deddfau hynny.

### 3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

#### *Y rheswm dros y Bil ac esboniad o'i amseriad*

3.1 Yn dilyn cyflwyno'r dreth trafodiadau tir a'r dreth gwarediadau tirlenwi yn 2018 (a elwir ar y cyd yn "drethi datganoledig"), mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried, gyda chymorth ei rhanddeiliaid, beth fyddai'r dulliau priodol i sicrhau y gellir gwneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru ar fyr rybudd o dan rai amgylchiadau. Mae angen yr ymyriad hwn yn bennaf i ddiogelu refeniw sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus hanfodol yng Nghymru. Ar hyn o bryd, er enghraifft, bob tro y bydd cyllideb neu ddigwyddiad cyllidol y DU, mae Llywodraeth Cymru yn cymryd y risg y gallai fod newid sy'n effeithio ar dreth ddatganoledig sy'n golygu effaith gyllidebol uniongyrchol ar adnoddau Llywodraeth Cymru ac na all Gweinidogion Cymru ymateb iddo mewn modd amserol.

3.2 Diben bwriedig Gweinidogion Cymru wrth gyflwyno'r Bil hwn yw ei gwneud yn bosibl i newidiadau gael eu gwneud i Ddeddfau Trethi Cymru drwy reoliadau pan fo Gweinidogion Cymru o'r farn bod newidiadau o'r fath yn angenrheidiol neu'n briodol a phan fo'n ofynnol iddynt gael effaith ar unwaith neu'n fuan wedi hynny. Caniateir y newidiadau hynny er mwyn ymateb i nifer o amgylchiadau allanol a, phan fo'n angenrheidiol mewn rhai achosion, byddant yn cael effaith ôl-weithredol hefyd. I grynhoi:

- i. i sicrhau nad yw trethi datganoledig Cymru yn cael eu gorfodi lle y byddai gwneud hynny yn anghydnaws ag unrhyw rwymedigaethau rhyngwladol;
- ii. i ddiogelu rhag osgoi trethi mewn perthynas â threthi datganoledig Cymru;
- iii. i ymateb i newidiadau a wneir gan Lywodraeth y DU i drethi 'rhagflaenol' y DU (hynny yw, un lle mae gennym dreth ddatganoledig gyfatebol<sup>2</sup>) sy'n effeithio, neu a allai effeithio ar y swm a delir i Gronfa Gyfunol Cymru<sup>3</sup>); ac
- iv. i ymateb i benderfyniadau'r llysoedd/tribiwnlysoedd sy'n effeithio ar weithrediad Deddfau Trethi Cymru, neu a allai effeithio arnynt, neu unrhyw reoliadau a wneir oddi tanynt.

3.3 Ni fydd y pŵer i wneud rheoliadau yn cael ei ddefnyddio i gyflawni newidiadau polisi arferol i'r trethi datganoledig. Ar gyfer newidiadau o'r fath, bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio pwerau sydd eisoes yn bodoli yn Neddfau Trethi Cymru neu, pan fo angen, yn cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol. Mae'n glir mai po fwyaf sylweddol yw'r newid, mwyaf yn y byd yw'r

---

<sup>2</sup> Ar hyn o bryd, mae trethi 'rhagflaenol' yn cyfeirio at Dreth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi – trethi'r DU sy'n cyfateb i'r trethi sydd bellach wedi'u datganoli yng Nghymru.

<sup>3</sup> O dan adran 118(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

angen i wneud y newidiadau hynny mewn ymgynghoriad â dinasyddion Cymru a grwpiau rhanddeiliaid sydd â buddiant, ac ym mhob achos gyda chraffu priodol gan y Senedd.

3.4 Bydd y gallu i wneud newidiadau i ddeddfwriaeth trethi yn gyflym iawn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i senarios lle mae'n ddymunol gwneud newidiadau ar unwaith. Gall ymyriad o'r math hwn fod yn briodol pan fo angen i Weinidogion Cymru 'gau' cynlluniau osgoi trethi yn brydlon neu sicrhau cydymffurfedd â rhwymedigaethau rhyngwladol, os oes angen. Yn achos osgoi trethi, mae gan Awdurdod Cyllid Cymru eisoes ystod o bwerau sydd ar gael iddo ac mae'n eu defnyddio i sicrhau bod pawb yn talu'r swm cywir o dreth ac nad oes neb yn cael mantais annheg. Mewn rhai achosion, er hynny, efallai y bydd angen newid deddfwriaethol hefyd i ddarparu eglurder pellach neu i dynhau'r modd y cymhwysir y darpariaethau o dan sylw. Mae'r gallu i atal gweithgarwch osgoi trethi yn ceisio diogelu'r refeniw y mae gwasanaethau cyhoeddus yn dibynnu arno. Fel y nodir ym mharagraff 8.7 o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, bydd costau methu â gallu atal gweithgarwch osgoi trethi cyn gynted â phosibl yn dibynnu ar y gweithgarwch a dargedir. Gallai olygu y collir symiau sylweddol o refeniw trethi.

3.5 I ddarparu enghraifft, gallai ein refeniw treth trafodiadau tir (LTT) a gynhyrchir gan drafodiadau amhreswyl mawr fod yn agored i ymosodiadau osgoi trethi ffyrnig, wedi'u cynllunio. Yn y cyfnod o fis Ebrill i fis Hydref 2021, cafwyd 110 o drafodiadau lle'r oedd y gydnabyddiaeth drethadwy a roddwyd yn fwy na £2 filiwn. Maent wedi cynhyrchu cyfanswm o £52 miliwn o refeniw; 73% o'r holl refeniw a gynhyrchwyd gan drafodiadau amhreswyl. Ni fyddai ond yn cymryd nifer bach o'r prynwyr yn y trafodiadau hynny i geisio osgoi'r dreth i gael effaith sylweddol ar refeniw mewn cyfnod cymharol fyr. Mae angen i Weinidogion Cymru gael pwerau hyblyg er mwyn atal gweithgarwch osgoi trethi o'r fath, a hynny ar unwaith i bob pwrpas pe bai hyn yn digwydd.

3.6 Effaith fwriedig y ddeddfwriaeth yn bennaf yw rhoi mecanwaith cymesur i Weinidogion Cymru i ddiogelu refeniw Cymru os bydd amgylchiadau allanol yn effeithio ar y refeniw hwnnw. I ddarparu enghraifft, pe bai Llywodraeth y DU yn cyflwyno newid i dreth ragflaenol ar fyr rybudd, a fydd yn cael effaith ar unwaith, ac a allai fod â goblygiadau i fusnesau, y farchnad eiddo, yr amgylchedd ac a allai gael effaith gyllidebol uniongyrchol hefyd ar yr adnoddau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru drwy'r broses o addasu'r grant bloc.

3.7 Mae'r papur ymgynghori a gyhoeddwyd yn 2020: *Datganoli Trethi yng Nghymru – Ei gwneud yn bosibl cyflwyno newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru*<sup>4</sup> (“ymgynghoriad 2020”) yn tanlinellu'r enghraifft ddiweddar o gyflwyno cyfraddau uwch treth dir y dreth stamp (SDLT) ar gyfer anheddau

---

<sup>4</sup> Gellir gweld *Datganoli Trethi yng Nghymru – Ei gwneud yn bosibl cyflwyno newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru* (Gorffennaf 2020) yn: <https://llyw.cymru/ei-gwneud-yn-bosibl-cyflwyno-newidiadau-i-ddeddfau-trethi-cymru>. Gweler Pennod 4, senario 4.

ychwanegol yn 2016 a gynyddodd ymdrech treth dir y dreth stamp<sup>5</sup>. Cododd y cyfraddau uwch yng Nghymru oddeutu £60 miliwn yn 2018-19. Nid oedd Llywodraeth Cymru ond mewn sefyllfa i ymateb i'r addasiad hwn a chyflwyno cyfundrefn debyg drwy ddiwygio Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 yn ystod ei hynt drwy'r Senedd. Pe na bai'r gwelliant hwn wedi bod yn bosibl, byddai'r addasiad i'r grant bloc wedi bod yn llawer mwy na'r refeniw o'r dreth trafodiadau tir, gan arwain at ostyngiad yn yr adnoddau cyffredinol sydd ar gael i Lywodraeth Cymru. Yn y mathau hyn o senarios, heb i'r pwerau gael eu cyflwyno gan y Bil, byddai angen i Lywodraeth Cymru naill ai weithredu gyda chyllideb lai neu ddod o hyd i ffyrdd eraill o godi refeniw o'r fath er mwyn cynnal lefelau adnoddau presennol.

3.8 I'r gwrthwyneb, pan fydd Llywodraeth y DU yn gwneud newidiadau sy'n lleihau refeniw treth y DU o dreth dir y dreth stamp, bydd yr addasiad i'r grant bloc yn gostwng a bydd cyllideb Llywodraeth Cymru yn cynyddu. Yn y mathau hyn o senarios, pan wneir gostyngiadau treth i drethi rhagflaenol y DU, efallai y bydd angen gweithredu'n gyflym i gyfyngu ar unrhyw achosion annymunol posibl o lurgunio marchnadoedd a allai niweidio busnesau yng Nghymru.

3.9 Mae'r paragraffau uchod yn amlinellu senario treth trafodiadau tir, ond bydd yr un egwyddorion (mewn perthynas ag ymdrech dreth gan dreth ragflaenol) yn gymwys i'r holl drethi datganoledig cysylltiedig. Ar hyn o bryd, mae dwy dreth ddatganoledig sydd â threth ragflaenol: y dreth trafodiadau tir (LTT) a ddisodlodd treth dir y dreth stamp y DU (SDLT), a'r dreth gwarediadau tirlenwi (LDT) a ddisodlodd dreth tirlenwi'r DU.

### *Y cefndir polisi*

3.10 Diwygiodd Deddf Cymru 2014<sup>6</sup> Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006<sup>7</sup> i ddarparu ar gyfer sefydlu trethi datganoledig a datgymhwyso trethi rhagflaenol y DU yng Nghymru.

3.11 Sefydlodd Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016<sup>8</sup> fframwaith llywodraethu clir a chryf yng Nghymru i gefnogi'r gwaith o gasglu a rheoli trethi datganoledig Cymru yn effeithiol a sefydlodd hefyd Awdurdod Cyllid

---

<sup>5</sup> Mae "ymdrech treth dir y dreth stamp" yn cyfeirio at faint o dreth y mae'r dreth a ragflaenodd y dreth trafodiadau tir yn ei chasglu. Os bydd yr ymdrech yn fwy, bydd yr addasiad i'r grant bloc yn cynyddu, gan arwain at fwy o leihad yng nghyllideb Llywodraeth Cymru, gan leihau ei hadnoddau yn gyffredinol. Os bydd ymdrech treth dir y dreth stamp yn lleihau, bydd y gwrthwyneb yn digwydd, gan arwain at fwy o adnoddau i Lywodraeth Cymru yn gyffredinol.

<sup>6</sup> Mae Deddf Cymru 2014 ar gael yn:

<https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2014/29/contents/enacted>

<sup>7</sup> Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ar gael yn:

<https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2006/32/contents>

<sup>8</sup> Mae Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 ar gael yn:

<https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/6/contents/enacted/welsh>

Cymru. Yn dilyn y ddeddfwriaeth hon, cyflwynwyd y ddwy dreth ddatganoledig yng Nghymru yn 2018<sup>9</sup>.

- 3.12 Bwriedir i'r Bil hwn ddarparu ysgogiad cyllidol ychwanegol i ymateb i amgylchiadau allanol sy'n effeithio ar ein trethi datganoledig. Fel pob gweithrediaeth, mae angen set gymesur ac effeithiol o ddulliau ar Lywodraeth Cymru i reoli'r pwerau treth hynny yn strategol ac yn effeithiol er mwyn diogelu trethdalwyr a chyllid cyhoeddus. Bydd y Bil hwn yn cyfrannu at yr ymgyrch dros ddatganoli trethi yn sefydlog drwy alluogi Llywodraeth Cymru i ddiogelu ei chyllid a ddefnyddir i ariannu gwasanaethau cyhoeddus.
- 3.13 Newid cyfansoddiadol cymharol ddiweddar yw datganoli trethi, gyda threthi datganoledig ond yn dechrau gweithredu bedair blynedd yn ôl. Ni cheir y gair olaf gyda'r Bil hwn ac nid yw'r Bil ychwaith yn darparu 'datrysiad' hirdymor i sut yr ydym am wneud newidiadau brys i'n deddfwriaeth trethi. Yn hytrach, cam ymarferol i'w gymryd yn awr yw hwn wrth inni symud tuag at bensaerniaeth ar gyfer gwneud newidiadau i drethi sy'n iawn i Gymru.

### *Darpariaethau Bil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu)*

- 3.14 Mae'r Bil yn rhoi pŵer i wneud rheoliadau i Weinidogion Cymru i'w galluogi i addasu Deddfau Trethi Cymru (ac is-ddeddfwriaeth a wneir oddi tanynt) mewn amgylchiadau penodol. Bwriedir i hyn yn bennaf ddarparu mecanwaith cymesur i Weinidogion Cymru ar gyfer diogelu refeniw Cymru os bydd amgylchiadau allanol yn effeithio ar y refeniw hwnnw. Nodir y rhannau penodol o'r Bil a'r rhesymau paham y credir bod eu hangen isod:

### **Adran 1: Pŵer i addasu Deddfau Trethi Cymru**

- 3.15 Mae'r adran hon yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau (i'w harfer naill ai trwy'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft neu'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed'), addasu Deddfau Trethi Cymru a rheoliadau a wneir oddi tanynt. Mae arfer y pŵer i wneud rheoliadau yn ddarostyngedig i bedwar prawf diben y bwriedir iddynt gyfyngu yn sylweddol ar y defnydd o'r pŵer. Mae'r profion diben yn targedu'r meysydd hynny lle y rhagwelir y bydd angen i Weinidogion Cymru ymateb i ddigwyddiadau allanol er mwyn diogelu refeniw Llywodraeth Cymru a threthdalwyr. Rhaid i Weinidogion Cymru ystyried bod yr addasiad naill ai'n angenrheidiol neu'n briodol cyn defnyddio'r pŵer i ymateb i'r digwyddiad hwnnw a dim ond at un neu ragor o'r dibenion canlynol y cânt ddefnyddio'r pŵer:

- a) i sicrhau nad yw'r dreth gwarediadau tirlenwi a'r dreth trafodiadau tir yn cael eu gorfodi lle y byddai gwneud hynny yn anghydnaws ag unrhyw rwymedigaethau rhyngwladol;

---

<sup>9</sup> Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 a Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017.



- b) i ddiogelu rhag osgoi trethi mewn perthynas â'r dreth gwarediadau tirlenwi a'r dreth trafodiadau tir;
- c) i ymateb i newidiadau a wneir i drethi 'rhagflaenol' y DU (hynny yw, treth dir y dreth stamp neu'r dreth dirlenwi) sy'n effeithio, neu a allai effeithio, ar y swm a delir i Gronfa Gyfunol Cymru; ac
- d) i ymateb i benderfyniadau'r llysoedd/tribiwnlysoedd sy'n effeithio ar Ddeddfau Trethi Cymru neu a allai effeithio arnynt, neu unrhyw reoliadau a wneir oddi tanynt.

3.16 Caiff y Senedd gymeradwyo unrhyw drethi datganoledig a grëir cyn i'r cymal machlud fod yn gymwys (a fydd yn gwahardd Gweinidogion Cymru rhag gwneud rheoliadau pellach gan ddefnyddio'r pŵer yn adran 1 – gweler paragraffau 3.57-3.60) i'w cynnwys ar y rhestr o Ddeddfau Trethi Cymru. Os digwydd hyn, byddai pob un o'r pedwar prawf diben yn berthnasol i'r dreth ddatganoledig newydd os oes ganddi dreth ragflaenol y DU gyfatebol. Os nad oes gan y dreth ddatganoledig newydd dreth ragflaenol, dim ond profion diben (a), (b) a (d) fydd yn berthnasol.

3.17 Unig ddiben y senarios a ganlyn yw nodi'r math o amgylchiadau y gellid defnyddio'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 1 ynddynt ar gyfer pob prawf diben. Nid oes unrhyw faterion hysbys mewn perthynas â Ddeddfau Trethi Cymru wedi eu nodi yn yr enghreifftiau.

3.18 Mae'r effaith fwriedig fel a ganlyn:

**Diben (a):**

Efallai y bydd Gweinidogion Cymru am wneud newidiadau ar fyr rybudd er mwyn sicrhau nad yw'r trethi datganoledig yn cael eu gorfodi pan fyddai hynny'n arwain at beidio â chydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol penodol megis, er enghraifft, pan fo cytundeb masnach newydd neu gytundeb trethiant dwbl yn dod i ben gyda gwlad arall sydd â goblygiadau i'r trethi datganoledig.

**Senario 1:**

*Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 - Rhan 5: Cymhwyso'r Ddeddf a DCRHT i bersonau a chyirff penodol*

3.19 Mae Rhan 5 o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 yn gwneud darpariaeth ynghylch cymhwyso'r Ddeddf honno a Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 i

personau a chyrrff penodol, gan gynnwys cwmnïau, partneriaethau ac ymddiriedolaethau.

3.20 Mae'n bosibl y gallai rhwymedigaethau cytuniadau yn y dyfodol arwain at endidau newydd, megis cyfryngau buddsoddi nad ydynt yn perthyn i'r DU, a fydd yn galw am driniaeth debyg i endidau tebyg yn y DU (neu y bydd angen darparu rheolau a saernïwyd yn benodol ar eu cyfer) wrth brynu eiddo yn y DU. Gallai newidiadau o'r fath o bosibl fodloni gofynion y prawf diben yn adran 1(1)(a) pan fyddai triniaeth gyfwerth yn codi yn sgil cydymffurfio â rhwymedigaeth ryngwladol.

## Senario 2:

### Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 - Rhan 3: Gwarediadau Trethadwy a Wneir ar Safleoedd Tirlenwi Awdurdodedig

3.21 Mae Rhan 3 o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 yn gwneud darpariaeth am sut y dylid codi'r dreth ar warediadau trethadwy ar safleoedd tirlenwi awdurdodedig, gan gynnwys y personau y mae'r dreth i'w chodi arnynt, cyfrifo'r dreth, rhyddhadau, gofynion cofrestru a chyfrifyddu, a thalu, adennill ac ad-dalu'r dreth.

3.22 Mae nifer o Rannau o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 sy'n cynnwys diffiniadau sy'n deillio o aelodaeth y DU o'r UE yn y gorffennol. Un enghraifft yw'r diffiniad o wastraff nad yw'n beryglus (gofyniad 5 o adran 16(1) o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017). Mae'n bosibl y gallai cytundebau a chytuniadau masnach yn y dyfodol gynnwys gofynion ar gyfer diffiniadau cyffredin rhwng y gwledydd neu'r endidau contractio, nad ydynt gyfwerth â'r diffiniadau presennol. Yn y senario hon, gellid defnyddio adran 1(1)(a) i sicrhau cydymffurfedd â goblygiadau rhyngwladol.

#### **Diben (b):**

Caiff Gweinidogion Cymru wneud newidiadau deddfwriaethol i ddiogelu rhag gweithgarwch osgoi trethi y gellir ei atal wedyn ar unwaith. Mae hyn yn cynnwys achosion pan fo Awdurdod Cyllid Cymru a/neu Lywodraeth Cymru o'r farn y bydd mwy o eglurder yn y ddeddfwriaeth yn golygu na fydd unrhyw amheuaeth ynghylch y ffordd y bwriedir cymhwyso'r darpariaethau deddfwriaethol, ac y bydd o fudd i drethdalwyr o bosibl gan y bydd yn atal hyrwyddo cyfleoedd i osgoi nad ydynt yn bodoli mewn gwirionedd. Cymerwyd camau o'r fath gan Lywodraeth y DU i ddiogelu cyfundrefnau treth a threthdalwyr yn y gorffennol ac mae Gweinidogion Cymru am allu cymryd camau tebyg.

## Senario 1:

### Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 - Rhan 2: Y Dreth a Gwarediadau Trethadwy

3.23 Mae Rhan 2 o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 yn darparu'r rheolau mewn perthynas â gwarediadau trethadwy a thrafodiadau esempt, gan osod yr amodau y mae'n ofynnol eu bodloni cyn ceir gwarediad trethadwy o wastraff drwy dirlenwi. Mae nifer o gysyniadau sy'n allweddol i weithrediad y dreth, er enghraifft, gwaredu'r deunydd fel gwastraff, ac nad yw'r deunydd o'r deunydd sy'n ganlyniad i'w waredu drwy dirlenwi yn dadwneud bwriad i daflu deunydd o'r neilltu. Mae'n bosibl y byddai angen newidiadau gan ddefnyddio'r pŵer yn y Bil i wrthsefyll unrhyw weithgarwch osgoi trethi trwy, o bosibl, geisio manteisio ar fwch ymddangosiadol yn y diffiniadau hynny er mwyn ceisio gwaredu gwastraff drwy dirlenwi heb ysgwyddo tâl treth. Mewn achosion o'r fath, caiff Gweinidogion Cymru ddefnyddio adran 1(1)(b) i unioni'r mater ac osgoi unrhyw achosion pellach o osgoi trethi.

## Senario 2:

### Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 - Rhan 3: Cyfrifo treth a rhyddhadau

3.24 Mae Rhan 3 o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â chyfrifo'r dreth, y bandiau a'r cyfraddau treth, a'r rhyddhadau sydd ar gael (gan gynnwys y Rheol Wedi'i Thargedu yn Erbyn Osgoi Trethi ynghylch pob hawliad o ryddhad). Mae'r rheolau sy'n ymwneud â'r rhyddhadau penodol i'w gweld yn Atodlen 2 (i'r graddau eu bod yn gymwys i drafodiadau cyn-gwblhau) ac Atodlenni 6 i 22. Gellid 'cau' unrhyw gyfleoedd ymddangosiadol i osgoi trethi yn gyflym drwy wneud newidiadau gan ddefnyddio'r pŵer i wneud rheoliadau yn y Bil hwn a'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed'. Byddai hyn yn atal, yn gyflym, ymgeiswyr newydd i'r trefniadau osgoi trethi a fyddai am geisio manteisio ar y rhyddhadau.

#### **Diben (c):**

Caiff Gweinidogion Cymru wneud newidiadau mewn ymateb i newidiadau a wneir gan Lywodraeth y DU i drethi rhagflaenol y DU a fydd yn effeithio ar yr addasiad i grant bloc Cymru a thrwy hynny'r referniw sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus hanfodol.

## **Senario 1:**

### *Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 - Rhan 6: Ffurflenni treth a thaliadau*

3.25 Mae Rhan 6 o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 yn gwneud darpariaeth ynghylch pryd y mae ffurflenni i'w dychwelyd a thaliadau i'w gwneud mewn perthynas â'r dreth, ac mae hyn yn cynnwys y rheolau gohirio a'r gweithdrefnau. Gallai Llywodraeth y DU newid ei rheolau ar drafodiadau hysbysadwy. Er enghraifft, ar hyn o bryd, nid yw trafodiadau rhydd-ddaliadol gyda chydabyddiaeth drethadwy o lai na £40,000 yn drafodiadau hysbysadwy ar gyfer treth dir y dreth stamp a'r dreth trafodiadau tir. Pe bai Llywodraeth y DU yn cynyddu'r ffigur hwnnw, byddai hynny yn golygu symleiddio treth ar gyfer trethdalwyr treth dir y dreth stamp oherwydd byddai llai o drafodiadau yn arwain at rwymedigaeth ffeilio. Er hynny, byddai goblygiadau o ran atebolrwydd treth hefyd oherwydd, heb unrhyw newidiadau eraill, byddai cynyddu'r ffigur hysbysadwy yn golygu na fyddai'r dreth yn cael ei thalu o dan y priod reolau cyfraddau preswyl uwch. Gall y newid gan Lywodraeth y DU arwain felly at newid y symiau a delir i'r Gronfa Gyfunol, a pheri i brawf diben 1(1)(c) fod yn berthnasol felly. Yn yr achos hwn, gall Gweinidogion Cymru ddewis efelychu newidiadau'r DU i leihau'r rhwymedigaethau ffeilio (yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd) ond eu cyfyngu fel mai dim ond i'r trafodiadau hynny sy'n agored i brif gyfraddau preswyl y dreth trafodiadau tir y byddant yn gymwys.

## **Senario 2:**

### *Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 - Rhan 2: Y Dreth a Gwarediadau Trethadwy*

- 3.26 Mae Rhan 2 o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 yn darparu'r rheolau mewn perthynas â gwarediadau trethadwy a thrafodiadau esempt, gan osod yr amodau sy'n rhaid eu bodloni cyn ceir gwarediad trethadwy o wastraff drwy dirlenwi. Mae nifer o gysyniadau sy'n allweddol i weithrediad y dreth, er enghraifft, gwaredu'r deunydd fel gwastraff, ac nad yw'r defnydd o'r deunydd sy'n ganlyniad i'w waredu drwy dirlenwi yn dad-wneud bwriad i daflu deunydd o'r neilltu.
- 3.27 Mae'n bosibl y gallai Llywodraeth y DU wneud newidiadau i'r dreth ragflaenol a fydd yn arwain at dynhau'r diffiniadau fel y gallai mwy o weithgarwch ddod o fewn cwmplas ei threth, gan hyd yn oed greu beth fyddai'n amod ychwanegol at ddibenion y dreth gwarediadau tirlenwi. Gallai hyn effeithio ar y swm a delir i'r Gronfa Gyfunol (oherwydd byddai'r dreth ragflaenol yn gwneud ymdrech dreth a fyddai'n fwy nag yr oedd yn flaenorol), a gallai hefyd effeithio ar yr amgylchedd wrth i Gymru ddod yn lle rhatach i waredu gwastraff ynddo. Yn unol â hyn, gall Gweinidogion Cymru ystyried gwneud rheoliadau sy'n bodloni'r prawf diben yn adran 1(1)(c) i leihau'r effaith ar y Gronfa Gyfunol. Darperir nifer o'r pwerau

gwneud rheoliadau ar gyfer gwneud newidiadau eisoes, ond maent yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft ac ni ellir eu gwneud gydag effaith ôl-weithredol (yn ôl i'r dyddiad y gwnaed cyhoeddiad gan Weinidogion Cymru). Bydd y pwerau yn y Bil hwn yn galluogi i reoliadau gael eu gwneud drwy'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed', a, phan fo'r amodau perthnasol yn cael eu bodloni, byddant hefyd yn caniatáu i reoliadau gael effaith ôl-weithredol.

**Diben (d):**

Caiff Gweinidogion Cymru wneud newidiadau os bydd penderfyniad llys neu driwlynys yn nodi mater y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried y byddai newid deddfwriaethol o fudd iddo (gan gynnwys penderfyniadau sy'n ymwneud â threthi rhagflaenol y DU, trethi eraill, neu gyfreithiau eraill sy'n effeithio ar y trethi datganoledig), neu er mwyn egluro'r gyfraith yn well.

**Senario 1:**

**Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 - Rhan 6: Ffurflenni treth a thaliadau**

3.28 Mae Rhan 6 o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 yn gwneud darpariaeth ynghylch pryd y mae ffurflenni i'w dychwelyd a thaliadau i'w gwneud mewn perthynas â'r dreth, ac mae hyn yn cynnwys y rheolau gohirio a'r gweithdrefnau. Gallai penderfyniad llys ganfod nad oedd unrhyw agwedd ar y rheolau yn gweithredu fel y credai Awdurdod Cyllid Cymru a llawer o gynghorwyr. Gall fod angen egluro'r rheolau i sicrhau bod cyfundrefn y dreth trafodiadau tir yn parhau i weithio mewn modd cydlynus. Gallai fod angen darparu'r eglurhad hwnnw ar unwaith. Er enghraifft, gallai unrhyw ganfyddiad sy'n newid rhwymedigaethau ffeilio presennol trethdalwyr neu sy'n gyfystyr â thrafodiad hysbysadwy danseilio hunanasesu effeithiol at ddibenion y dreth trafodiadau tir. Byddai'r pwerau yn y Bil hwn yn galluogi eglurhad o'r fath, os ystyrir bod hynny yn angenrheidiol neu'n briodol, drwy beri i'r prawf diben yn adran 1(1)(d) fod yn berthnasol a gellid bwrw ati yn gyflym gyda hwnnw os ystyrir bod brys gan ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed'.

**Senario 2:**

**Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 - Rhan 5: Cosbau**

3.29 Mae Rhan 5 yn gwneud darpariaeth ar gyfer gorfodi cosbau mewn perthynas â threthi datganoledig, ac mewn cysylltiad â hyn. Mae'r angen i ddefnyddio'r pŵer yn y Bil yn fwyaf tebygol o godi ar gyfer y Rhan hon o ganlyniad i benderfyniadau gan y llys. Er enghraifft, gallai penderfyniad gan lys ganfod bod y cymhwysiad o 'amgylchiadau arbennig' neu 'esgus

rhesymol' yn gulach nag yr ystyriwyd ei fod yn rhesymol yn wreiddiol. Felly, naill ai ni fydd trethdalwyr yn cael gostyngiad yn eu cosb mewn amgylchiadau priodol, neu, i'r gwrthwyneb, dylid darparu'r gostyngiadau mewn llawer mwy o sefyllfaoedd, gan olygu bod y gyfundrefn gosbau yn aneffeithiol o ganlyniad. Byddai defnyddio'r pŵer yn is-adran 1(1)(d) yn y mathau hyn o amgylchiadau yn sicrhau bod y gyfraith yn glir i'r trethdalwyr yn ogystal ag i Awdurdod Cyllid Cymru, ac yn sicrhau bod y rheolau yn gweithredu'n effeithiol.

- 3.30 Mae'r dibenion wedi'u cyfyngu i sicrhau bod y defnydd o'r pŵer yn gyfyngedig, gan gydnabod y cydbwysedd rhwng rhoi'r gallu i Weinidogion Cymru i ymateb i ddigwyddiadau allanol mewn ffordd hyblyg ac ystwyth, a phwysigrwydd craffu ar weithredoedd Gweinidogion Cymru gan y Senedd.

## **Adran 2: Rheoliadau o dan adran 1 - atodol**

- 3.31 Mae adran 2 yn darparu y caiff rheoliadau wneud newidiadau i'r trethi datganoledig gan gynnwys gwneud newidiadau i'r symiau sy'n daladwy gan drethdalwyr. Mae adran 2 hefyd yn caniatáu i reoliadau a wneir gan ddefnyddio'r pŵer yn adran 1 orfodi treth a/neu ymestyn cosbau arfaethedig a gall y rheoliadau hynny hefyd gael effaith ôl-weithredol. Fodd bynnag, mae adran 2 yn nodi na cheir gorfodi cosb newydd neu newid i gosb sy'n bodoli eisoes yn ôl-weithredol.

### *Effaith ôl-weithredol*

- 3.32 Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod angen gallu gwneud newidiadau deddfwriaethol yn ôl-weithredol, lle y credir bod hynny'n angenrheidiol neu'n briodol, fesul achos. Y rheswm dros hyn yw bod y gallu i ymateb i ddigwyddiadau allanol a allai effeithio ar refeniw Llywodraeth Cymru yn golygu bod angen i'r ddeddfwriaeth gael effaith o ddyddiad sy'n gynharach na'r dyddiad y gwneir y rheoliadau. Er enghraifft, yn achos gweithgarwch osgoi, gallai fod yn briodol i effaith y ddeddfwriaeth fod yn gymwys o ddyddiad pan gyhoeddodd Gweinidogion Cymru y byddai newidiadau'n cael eu gwneud i fynd i'r afael â gweithgarwch osgoi penodol. O ran newidiadau i'r trethi rhagflaenol, gall Gweinidogion Cymru gyhoeddi y gwneir newidiadau i'r trethi datganoledig i gynyddu neu leihau'r ymdrech dreth, a'i bod yn ddymunol i'r newidiadau hynny gael effaith o ddyddiad cyn y gwneir y rheoliadau pan fônt yn cydymffurfio â'r rheolau ar wneud newidiadau yn ôl-weithredol (gweler isod).
- 3.33 Mae adran 2 yn cyflwyno cyfyngiad sy'n atal rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru sy'n cael effaith ôl-weithredol rhag cael eu cymhwyso o ddyddiad sydd ymhellach yn ôl na'r dyddiad y rhybuddiwyd neu y cyhoeddwyd am y newid deddfwriaethol, naill ai drwy ddatganiad llafar neu ddatganiad ysgrifenedig Gweinidogol. Mewn achosion lle ceir effaith dreth 'negatif' (hynny yw, lle mae unrhyw atebolrwydd treth newydd neu atebolrwydd treth uwch mewn perthynas â'r dreth trafodiadau tir neu'r

dreth gwarediadau tirlenwi) ar drethdalwr yn unig y bydd y cyfyngiad yn gymwys.

- 3.34 Er hynny, bydd y cyfyngiad yn dal i ganiatáu i Weinidogion Cymru ddefnyddio'r pŵer i wneud newidiadau gydag effaith ôl-weithredol ymhellach yn ôl na dyddiad unrhyw gyhoeddiad pan fo'r newid hwnnw yn gostwng y dreth a godir. Er enghraifft, pe bai'n ymateb i newid i Gyllideb y DU, byddai hyn yn sicrhau bod trethdalwyr Cymreig yn gallu elwa ar y gostyngiad ar yr un pryd â threthdalwyr yn Lloegr.
- 3.35 Mae adran 2 hefyd yn cyfyngu ar y gallu i leihau neu dynnu'n ôl yn ôl-weithredol yr hawl i gredyd treth at ddibenion y dreth gwarediadau tirlenwi yn ôl i ddyddiad y cyhoeddiad Gweinidogol (naill ai drwy ddatganiad llafar neu ddatganiad ysgrifenedig) yn unig. Nid yw'r cyfyngiadau hyn yn gymwys pan fo'r rheoliadau yn cael yr effaith o gynyddu neu gyflwyno credyd treth newydd i gyfundrefn y dreth gwarediadau tirlenwi.
- 3.36 Cydnabyddir bod defnyddio deddfwriaeth ôl-weithredol yn ddadleuol ac, yn unol â hynny, mae adran 3 yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi datganiad ar ddefnyddio'r pŵer i wneud rheoliadau ag effaith ôl-weithredol (gweler paragraff 3.42).

### *Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016*

- 3.37 Mae adran 2 yn nodi na chaiff rheoliadau o dan adran 1 addasu darpariaethau Rhan 2 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016. Yr effaith a fwriedir yw nodi'r darpariaethau a sefydlodd Awdurdod Cyllid Cymru. Ni ragwelir y byddai angen i Weinidogion Cymru ymateb ar fyr rybudd i newidiadau i sefydlu, aelodaeth a gweithrediad adran anweinidogol o Lywodraeth Cymru megis Awdurdod Cyllid Cymru – byddai'r rhain yn cael eu hystyried yn newidiadau polisi arferol y gellir mynd i'r afael â hwy dros gyfnod hwy sy'n debygol drwy ddeddfwriaeth sylfaenol.
- 3.38 Mae adran 2 hefyd yn gwahardd rheoliadau a wnaed gan ddefnyddio'r pŵer yn adran 1 rhag gwneud newidiadau i unrhyw reolau sy'n berthnasol i ymchwilio i droseddau. Mae adrannau penodol o Ddeddfau Trethi Cymru yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru ddiwygio rhywfaint o ddeddfwriaeth y DU drwy reoliadau.

### *Diwygio cyfraddau trethi a bandiau trethi datganoledig*

- 3.39 Mae adran 2 hefyd yn nodi na chaiff rheoliadau o dan adran 1 addasu rheoliadau sy'n pennu bandiau trethi a chyfraddau trethi ar gyfer y dreth trafodiadau tir<sup>10</sup> a'r dreth gwarediadau tirlenwi<sup>11</sup>. Yr effaith a fwriedir yw nodi'r pŵer i wneud rheoliadau cyfraddau a bandiau'r dreth trafodiadau tir

<sup>10</sup> Adrannau 24(1) a pharagraffau 27(4) a 28(1) o Atodlen 6 i Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017.

<sup>11</sup> Adrannau 14(3), 14(6) a 46(4) o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017.

a'r dreth gwarediadau tirlenwi gan fod y rhain eisoes yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed', ac felly gellir gwneud newidiadau ar unwaith eisoes i'r darpariaethau hyn. Defnyddiwyd y pwerau hyn sawl gwaith ers i'r ddwy dreth ddatganoledig ddechrau gweithredu ym mis Ebrill 2018 ac ystyrir eu bod yn gweithredu'n effeithiol. Effaith hyn hefyd yw culhau cwmpas y pŵer cadarnhaol 'gwnaed' yn y Bil hwn ymhellach i wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru.

### *Diwygio gweithdrefn graffu bresennol Senedd Cymru mewn perthynas â Deddfau Trethi Cymru*

3.40 Mae adran 2 yn nodi na chaiff rheoliadau o dan adran 1 newid unrhyw un o weithdrefnau craffu bresennol Senedd Cymru mewn perthynas â gwneud offeryn statudol o dan unrhyw ddarpariaeth o Ddeddfau Trethi Cymru. Bydd y cyfyngiad hwn yn gymwys i'r holl bwerau gwneud rheoliadau, waeth pryd y cawsant eu mewnosod yn Neddfau Trethi Cymru. Bydd hyn yn cynnwys y rheini sy'n bodoli eisoes ac unrhyw rai a grëir wedi hynny, drwy unrhyw fodd.

3.41 Er enghraifft, ni fydd modd newid rheoliadau sydd eisoes yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft yn Neddfau Trethi Cymru i'w gwneud yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed'.

### **Adran 3 - Datganiad polisi: rheoliadau o dan adran 1 sydd ag effaith ôl-weithredol**

3.42 Mae adran 3 yn nodi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi datganiad ar eu dull o wneud rheoliadau sydd ag effaith ôl-weithredol. Rhaid cyhoeddi'r datganiad cyn diwedd y cyfnod o dri mis sy'n dechrau â dyddiad y Cydsyniad Brenhinol. Mae drafft diwygiedig o'r datganiad hwnnw wedi'i gyhoeddi adeg Cyfnod 3.

3.43 Mae enghreifftiau o ba bryd y caiff Gweinidogion Cymru ystyried gwneud rheoliadau gydag effaith ôl-weithredol yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- i. pan wneir newid gan Lywodraeth y DU sy'n cael effaith ar unwaith ac sy'n darparu mantais treth, a masnachol felly, i endidau sy'n agored i'r dreth ragflaenol,
- ii. pan wneir newid gan Lywodraeth y DU sy'n cael effaith ar unwaith ac sy'n cynyddu symiau treth a godir gan dreth ragflaenol a fydd yn cael effaith sylweddol ar yr addasiad i'r grant bloc,
- iii. pan fo angen atal gweithgarwch osgoi trethi,
- iv. pan fo penderfyniad llys yn golygu y gall na fydd y ddeddfwriaeth yn gweithredu yn unol â bwriad y Senedd pan gafodd ei deddfu,



- v. pan fo rheoliadau wedi cael eu gwneud gan ddefnyddio'r pwerau yn y Ddeddf (naill ai drwy'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft neu'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed') ac mae Gweinidogion Cymru yn dymuno diwygio effaith y rheoliadau, er mwyn i'r newidiadau gael effaith o'r un dyddiad y cafodd y rheoliadau gwreiddiol effaith.
- 3.44 Bydd y defnydd o ddeddfwriaeth sy'n cael effaith ôl-weithredol yn cael ei gyfyngu fel arfer i achosion lle effaith y rheoliadau yw rhoi budd i drethdalwyr Cymreig. I ddarparu enghraifft, os byddai Llywodraeth Cymru am i drethdalwyr Cymreig elwa ar ostyngiad yn eu hatebolrwydd treth o'r un dyddiad ag y cyflwynwyd newid tebyg yn Lloegr (boed hynny o ganlyniad i fabwysiadu'r un polisi neu bolisi gwahanol), neu, os credir ei bod yn briodol bod y dreth yn cydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol cyn y dyddiad y gwnaed y rheoliadau.
- 3.45 Pan fo atebolrwyddau yn cael eu cynyddu yn ôl-weithredol, a lle y gallai trethdalwyr fod wedi disgwyl yn rhesymol i newidiadau ôl-weithredol gael eu cyflwyno, caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n cynyddu atebolrwydd trethdalwyr. Er enghraifft, pan nodir bod trethi'n cael eu hosgoi, gall y Gweinidogion gyhoeddi y bydd y cynllun yn cael ei gau drwy reoliadau yn y dyfodol o ddyddiad y cyhoeddiad hwnnw. Er hynny, pan fo'r rheoliadau yn creu atebolrwydd treth ddatganoledig, neu atebolrwydd uwch o'r fath, dim ond gydag effaith ôl-weithredol i'r dyddiad y mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud datganiad llafar neu Ddatganiad Ysgrifenedig i'r Senedd y ceir eu gwneud. Mae'r un cyfyngiadau yn berthnasol hefyd pan fo'r rheoliadau yn lleihau hawl i gredyd treth at ddibenion y dreth gwarediadau tirlenwi, neu'n tynnu hawl o'r fath yn ôl.

#### **Adran 4 – Gweithdrefn ar gyfer rheoliadau o dan adran 1**

- 3.46 Mae adran 4 yn nodi bod y pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 1 yn arferadwy drwy offeryn statudol. Bydd y Bil yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau gan ddefnyddio naill ai'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft neu'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed'. Bydd Gweinidogion Cymru yn ceisio defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft pan fo modd, sy'n golygu na all y rheoliadau ddod i rym ond pan fo'r Senedd wedi cymeradwyo eu gwneud. Bydd Gweinidogion Cymru yn defnyddio'r rheoliadau hyn pan fo angen llai o frys ac mae amser i'r Senedd gymeradwyo'r rheoliadau cyn iddynt gael eu gwneud.
- 3.47 Er hynny, caiff Gweinidogion Cymru ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' lle maent o'r farn ei bod yn angenrheidiol oherwydd brys (er enghraifft, lle y bydd angen i'r rheoliadau gael effaith ar unwaith neu'n fuan wedi hynny, ac felly cyn y gallai'r Senedd gymeradwyo set o reoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft). Bydd hyn yn sicrhau y gall newidiadau, lle y bo'n briodol, ddod i rym cyn gynted ag y gwneir y rheoliadau, wrth aros am gymeradwyaeth y Senedd. 'gwnaed' Rhaid i'r gymeradwyaeth honno gael ei rhoi o fewn cyfnod nad yw'n hwy na 60 o

ddiwrnodau<sup>12</sup> i alluogi'r rheoliadau hynny i barhau mewn effaith. Bydd cyfiawnhad llawn am yr angen i weithredu ar frys ac i gyflwyno newid drwy reoliadau cadarnhaol 'gwnaed' yn cael ei nodi yn y Memorandwm Esboniadol i'r rheoliadau hynny.

3.48 Mae gan y rheoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' effaith dros dro naill ai tan bleidlais y Senedd neu'r mae'r rheoliadau yn methu o ganlyniad i beidio â chynnal pleidlais y Senedd o fewn y cyfnod gofynnol o 60 o ddiwrnodau. Os bydd y Senedd yn cymeradwyo'r rheoliadau bydd ganddynt effaith barhaol wedyn.

3.49 Ar gyfer rheoliadau cadarnhaol drafft a rheoliadau cadarnhaol 'gwnaed', y bwriad yw bod y cyfnod craffu a ddarperir yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng yr awydd i ddarparu gwaith craffu da ac i sicrhau bod sicrwydd deddfwriaethol yn cael ei ddarparu i'r newidiadau a gynhwysir yn y rheoliadau. Bydd Gweinidogion Cymru yn cynnig amserlen cyn y bleidlais sy'n adlewyrchu'r dyddiad erbyn pryd y mae angen i'r rheoliadau ddod i rym, cymhlethdod y materion dan sylw a'r amser y mae ei angen i ddarparu craffu addas, a'r awydd i ddarparu sicrwydd cynnar i drethdalwyr (a nifer y trethdalwyr yr effeithir arnynt).

3.50 Er mwyn caniatáu digon o amser ar gyfer craffu gan y Senedd, ni all y Senedd ystyried unrhyw gynnig i gymeradwyo rheoliadau a wneir o dan y weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed', ac ni all bleidleisio arno, hyd nes y bydd 28 o ddiwrnodau wedi mynd heibio, o'r dyddiad y gwneir y rheoliadau a chan gynnwys y dyddiad hwnnw. Nid yw'r cyfnod o 28 o ddiwrnodau yn cynnwys unrhyw gyfnod pan fydd y Senedd wedi'i diddymu neu ar doriad sy'n 4 diwrnod neu fwy.

### **Adran 5 - Rheoliadau sy'n peidio â chael effaith: atodol**

3.51 Mae adran 5 o'r Bil yn nodi'r hyn sy'n digwydd pan fydd rheoliadau a wneir o dan y weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' yn peidio â chael effaith o ganlyniad i fethu â chael cymeradwyaeth y Senedd. Bydd y rheoliadau sydd wedi methu yn cael effaith yn ystod y cyfnod o'r dyddiad y deuant i rym nes iddynt gael eu gwrthod neu pan ddaw'r cyfnod o 60 o ddiwrnodau i ben. Bydd unrhyw atebolrwydd treth newydd neu atebolrwydd treth uwch a gyflwynir gan y rheoliadau sydd wedi methu yn cael ei drin fel pe na bai erioed yn bodoli, a bydd unrhyw dynnu'n ôl neu leihau hawl i gredyd treth hefyd yn cael ei drin fel pe na bai erioed wedi codi. Yn yr un modd, bydd unrhyw atebolrwydd i gosb neu i swm uwch o gosb a ddigwyddodd o ganlyniad i'r rheoliadau sydd wedi methu ac a ysgwyddwyd tra oedd y rheoliadau sydd wedi methu yn dal mewn grym, yn cael ei drin fel pe na bai erioed wedi codi.

3.52 Mae adran 5 hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer sefyllfaoedd lle y gallai camau fod wedi'u cymryd o ganlyniad uniongyrchol i'r rheoliadau

---

<sup>12</sup> Diwrnodau calendr sy'n dechrau ar y diwrnod y caiff y rheoliadau eu gwneud, ond heb gynnwys unrhyw gyfnodau pan fo'r Senedd mewn cyfnod o doriad neu wedi'i diddymu sy'n 4 diwrnod neu fwy.

sydd wedi methu. Er enghraifft, pan fo safleoedd wedi'u harolygu neu ddogfennau wedi'u harchwilio yn ystod y cyfnod pan oedd y rheoliadau'n ddilys. Yn yr achosion hynny, mae unrhyw gamau sydd wedi'u cymryd yn dal yn ddilys, er gwaethaf y rheoliadau sydd wedi methu.

3.53 Ym mhob achos, bwriad adran 5 yw sicrhau bod y risg o ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' i'w hysgwyddo gan Lywodraeth Cymru yn unig ac nid gan drethdalwyr Cymreig. Mae trethdalwyr Cymreig i'w diogelu rhag heriau sy'n ymwneud ag unrhyw beth a wnaed, neu na wnaed, wrth ddibynnu ar y rheoliadau a fethodd yn ystod y cyfnod yr oedd y rheoliadau a fethodd mewn grym.

### **Adran 6 – Adolygu gweithrediad ac effaith y Ddeddf hon**

3.54 Rhoddir dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adolygu gweithrediaeth ac effaith y Ddeddf a chyhoeddi casgliadau'r adolygiad hwnnw cyn pen 4 blynedd o'r dyddiad y daeth y Ddeddf i rym (y diwrnod ar ôl i'r Bil gael y Cydsyniad Brenhinol). Cynhelir yr adolygiad fel un rhwymedigaeth benodol, ac nid yw'n ofynnol cynnal unrhyw adolygiadau pellach o'r ddeddfwriaeth.

3.55 Ar ôl i gasgliadau'r adolygiad gael eu cyhoeddi, a chyn pen pum mlynedd o'r dyddiad y daw'r Ddeddf i rym, bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi datganiad i gadarnhau a gaiff y rheoliadau a ganiateir drwy adran 7 o'r Bil i ymestyn oes y pŵer i wneud rheoliadau am gyfnod pellach o hyd at 5 mlynedd eu gwneud ai peidio.

3.56 Gallai'r adolygiad groesgyfeirio at y gwaith y mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wedi ymrwymo iddo ar gyfer pennu trefniadau newydd i wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru, ond nid oes unrhyw ddibyniaeth uniongyrchol rhwng yr adolygiad a'r trefniadau newydd.

### **Adran 7 – Y pŵer o dan adran 1 yn dod i ben**

3.57 Bydd cynnwys cymal machlud yn gwahardd Gweinidogion Cymru rhag gwneud rhagor o reoliadau gan ddefnyddio'r pŵer yn adran 1 bum mlynedd ar ôl y dyddiad y daeth y Ddeddf i rym. Er hynny, mae adran 7 yn darparu un cyfle i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau, gan ganiatáu i'r pŵer yn adran 1 barhau mewn grym am gyfnod o bum mlynedd bellach. Mae adran 7 hefyd yn darparu bod y rheoliadau i oedi'r dyddiad y daw'r pŵer i ben yn arferadwy drwy offeryn statudol a'u bod yn arferadwy unwaith yn unig.

3.58 Mae'r rheoliadau sy'n darparu ar gyfer ymestyn yr amser ar gyfer y pŵer a ddarperir gan adran 1 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft (rhaid gosod drafft o'r rheoliadau gerbron y Senedd a'u cymeradwyo cyn y gallant gael effaith).

3.59 At hynny, ni ellir gosod y rheoliadau ar ffurf drafft cyn y cyhoeddir casgliadau'r adolygiad. Ni all y Senedd ychwaith gymeradwyo'r rheoliadau ar ôl i'r cyfnod cychwynol o bum mlynedd ddirwyn i ben.

3.60 Yn olaf, nid yw'r ffaith bod y pŵer a ddarperir yn adran 1 yn dod i ben yn effeithio ar y rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru cyn i'r pŵer ddod i ben. Felly, bydd y rheoliadau hynny yn parhau mewn grym ar ôl i allu Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau newydd ddirwyn i ben.

### *Gweithredu a chyflawni*

3.61 Mae'r Bil yn darparu ar gyfer gweithredu drwy alluogi Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth a chrynhair y pŵer hwn yn Nhabl 1 o'r Memorandwm Esboniadol hwn.

3.62 Fel y nodir ym mharagraff 3.54-3.56, rhoddir dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adolygu gweithrediad ac effaith y Ddeddf a'r defnydd o'r pŵer i wneud rheoliadau bedair blynedd ar ôl i'r ddeddfwriaeth gychwyn.

3.63 Daw'r Bil i rym y diwrnod ar ôl y diwrnod iddo gael y Cydsyniad Brenhinol

### *Rhychwant tiriogaethol*

3.64 Mae'r Bil yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

## **4. Ymgynghori**

### *Ymgynghori ar gynigion i alluogi newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru*

4.1 Roedd y papur ymgynghori a gyhoeddwyd yn 2020: *Datganoli Trethi yng Nghymru – Ei gwneud yn bosibl cyflwyno newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru*<sup>13</sup> ("ymgynghoriad 2020") yn ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru yn datblygu trefniadau trethi datganoledig yng Nghymru. Gofynnodd ymgynghoriad 2020 am farn ynghylch a oes gan Weinidogion Cymru y dulliau priodol i sicrhau y gallant wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru ar fyr rybudd mewn nifer o amgylchiadau. Roedd yn nodi cynnig Llywodraeth Cymru i roi pwerau hyblyg a chymesur i Weinidogion Cymru, i wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru, yn ddarostyngedig i graffu

---

<sup>13</sup> Gellir gweld *Datganoli Trethi yng Nghymru – Ei gwneud yn bosibl cyflwyno newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru* (Gorffennaf 2020) yn: <https://llyw.cymru/ei-gwneud-yn-bosibl-cyflwyno-newidiadau-i-ddeddfau-trethi-cymru>

priodol gan y Senedd. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnig rhoi tri phŵer i Weinidogion Cymru i ymateb i amgylchiadau allanol lle y gallai fod angen gwneud newidiadau ar unwaith, neu'n gyflym iawn, i Ddeddfau Trethi Cymru.

4.2 Roedd ymgynghoriad 2020 hefyd yn nodi cynnig ar gyfer “clo” y Senedd. Bwriedid i'r “clo” hwn gael ei gymhwyso i'r defnydd o'r pŵer i wneud rheoliadau mewn rhai amgylchiadau fel ffordd o ymateb i bryderon bod y pŵer yn anarferol o eang. Roedd y “clo” yn gofyn am bleidlais yn y Senedd i ddatglo'r defnydd o'r pŵer i wneud rheoliadau. Byddai hyn yn golygu y byddai egwyddorion cyffredinol y rheoliadau yn destun gwaith craffu cyn iddynt gael eu drafftio.

### *Ymatebion i'r ymgynghoriad*

4.3 Gwahoddwyd barn ar ymgynghoriad 2020 fel rhan o gyfnod ymgynghori a ddechreuodd ar 16 Gorffennaf 2020 ac a ddaeth i ben ar 15 Hydref 2020. Cafodd yr ymgynghoriad ei hyrwyddo drwy Twitter ac anfonwyd e-byst at fwy na 90 o randdeiliaid unigol Trysorlys Cymru, a chyrrff cynrychioliadol allweddol.

4.4 Cynhaliodd Llywodraeth Cymru sawl gweminar a digwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid ar-lein yn ystod y cyfnod ymgynghori, gan gynnwys â Phwyllgor Technegol Cymru y Sefydliad Siartredig Trethu, a chynhaliwyd sesiwn briffio technegol ehangach hefyd â'r Sefydliad Siartredig Trethu (cymerodd tua 200 o bobl ran ynddi). Hefyd, cynhaliwyd sesiwn gweithgor â Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr, ac â Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig.

4.5 Dangoswyd lefel eithaf da o ddiddordeb yn yr ymgynghoriad o gofio mai ymgynghoriad technegol, bach ydoedd. Daeth yr ymatebion oddi wrth bedwar unigolyn, a phedwar sefydliad. Roedd dau o'r rhain yn gyrrff proffesiynol, y naill yn sefydliad academaidd, a'r llall yn gymdeithas llywodraeth leol. Cyflwynwyd yr ymatebion gan ymatebwyr yng Nghymru, neu gangen Cymru o sefydliadau sy'n gweithredu ledled y DU.

4.6 Mae'r *Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion*<sup>14</sup> yn nodi bod rhanddeiliaid yn gefnogol ar y cyfan i'r egwyddor o ddefnyddio pwerau gwneud rheoliadau os bydd amgylchiadau allanol penodol yn effeithio ar Ddeddfau Trethi Cymru. Nodwyd yn benodol pa mor agored yw trethi datganoledig, a refeniw, i newidiadau trethi a wnaed ar lefel y DU i drethi rhagflaenol. Er hynny, awgrymwyd y dylai meini prawf llym, megis clo'r Senedd, fod ar waith cyn y gellir defnyddio'r pwerau. Ystyriwyd bod hyn yn angenrheidiol gan fod

---

<sup>14</sup> Gellir gweld *ymgynghoriad - crynodeb o ymatebion – Ei gwneud yn bosibl cyflwyno newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru* (Rhagfyr 2020) yn: <https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2020-12/ei-gwneud-yn-bosibl-cyflwyno-newidiadau-i-ddeddfau-trethi-cymru-crynodeb-or-ymatebion.pdf>.

y defnydd o'r pŵer yn benagored a gellid ei ddefnyddio i fod yn gymwys i 'amgylchiadau eraill o angen eithriadol' anhysbys neu heb eu diffinio.

4.7 Yn dilyn ystyriaeth bellach, penderfynodd Llywodraeth Cymru y dylid cyfyngu ar y defnydd o'r pŵer a bod gweithrediad ymarferol clo o'r fath yn heriol. Mae paragraff 3.15 o'r Memorandwm Esboniadol hwn yn nodi y bydd arfer y pŵer i wneud rheoliadau yn ddarostyngedig yn lle hynny i bedwar prawf diben y bwriedir iddynt gyfyngu ar y defnydd o'r pŵer. Rhaid ystyried bod yr addasiad naill ai'n angenrheidiol neu'n briodol ac ni ellir ei arfer ond i addasu Deddfau Trethi Cymru (neu is-ddeddfwriaeth gysylltiedig) at y dibenion penodedig a chyfyngedig a nodir yn y Bil.

4.8 Y bwriad polisi gwreiddiol fel y'i nodwyd ym Mhennod 3 o ymgynghoriad 2020 oedd y dylid cael tri phŵer i wneud rheoliadau i alluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio Deddfau Trethi Cymru (neu is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Deddfau hynny).

4.9 Diben '**Pŵer 1**' oedd galluogi Gweinidogion Cymru i wneud newidiadau i ddeddfwriaeth i atal gweithgarwch osgoi neu efadu trethi, i gydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol yn ôl yr angen, neu i ddelio ag achosion o "angen eithriadol". Bwriedir i hyn gwmpasu sefyllfaoedd anhysbys yn y dyfodol ond hefyd sefyllfaoedd megis yr angen i wneud newidiadau i ddeddfwriaeth lle y cafwyd penderfyniad anffafriol gan lys.

4.10 Yn unol â'r ymatebion i'r ymgynghoriad, mae 'efadu' wedi'i ddileu gan ei fod yn cael ei ystyried yn ddiangen o gofio y byddai hyn eisoes yn drosedd o dan y gyfraith bresennol, ac mae 'amgylchiadau eraill o angen eithriadol' bellach wedi'i ddileu, gyda'r dibenion ar gyfer gwneud y rheoliadau yn ymwneud yn benodol â phenderfyniadau gan lysoedd a thribiwnlysoedd yn unig. Bernir nad yw'n briodol defnyddio pwerau gwneud rheoliadau ar gyfer unrhyw amgylchiadau sydd heb eu diffinio neu heb eu pennu.

4.11 Bwriad '**Pŵer 2**' oedd rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud newidiadau pan fyddant o'r farn ei bod yn hwylus er budd y cyhoedd i wneud hynny. Felly, gallai'r pŵer fod wedi cael ei ddefnyddio i wneud newidiadau o unrhyw fath i unrhyw ddarpariaeth yn Neddfau Trethi Cymru ac is-ddeddfwriaeth gysylltiedig. Y bwriad, yn benodol, oedd rhoi llwybr i Weinidogion Cymru allu gwneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru mewn ymateb i newidiadau a wneir gan Lywodraeth y DU yng Nghyllidebau'r DU lle y ceir effaith ar yr addasiad i'r grant bloc a, thrwy hynny, ar y refeniw sydd ar gael i Lywodraeth Cymru.

4.12 Mae'r pŵer hwn bellach wedi'i gulhau i ymdrin yn benodol ag amgylchiadau pan fo angen i Weinidogion Cymru ymateb i newidiadau i drethi rhagflaenol a fyddai'n effeithio ar y swm a delir i Gronfa Gyfunol Cymru.

4.13 Roedd '**Pŵer 3**' yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau cadarnhaol drafft (y 'rheoliadau dilynol') i ddiwygio'r rheoliadau a grëwyd drwy ddefnyddio 'Pŵer 1' neu 'Bŵer 2' (y rheoliadau 'gwreiddiol'). Yn sgil

dadansoddi pellach, er hynny, daeth i'r amlwg bod gorgyffwrdd rhwng y ddau bŵer gwreiddiol (gan fod 'Pŵer 2' yn ddigon eang i gwmpasu popeth y byddai Pŵer 1 yn ei gwmpasu), ac y gallai fod yn heriol nodi pa bŵer y dylid ei ddefnyddio at ba ddibenion. Y casgliad yw mai'r un pŵer mewn gwirionedd oedd y pwerau diwygio ar wahân a geisir, sef pŵer i ddiwygio Deddfau Trethi Cymru (neu is-ddeddfwriaeth gysylltiedig) mewn amgylchiadau penodol, ac mai un pŵer i wneud rheoliadau oedd y cyfan yr oedd ei angen, yn ddarostyngedig naill ai i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft neu'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' yn dibynnu ar frys y rheoliadau.

### *Rhesymau dros beidio ag ymgynghori ar Fil drafft*

4.14 Mae'r darpariaethau a gynhwysir yn y Bil yn cyd-fynd â'r egwyddorion a nodwyd yn yr ymgynghoriad a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2020. Mae'r cynigion penodol wedi'u mireinio ymhellach yng ngoleuni'r ymatebion a dderbyniwyd. Yn dilyn ystyriaeth fanwl, datblygwyd wedi hynny hefyd nifer o newidiadau, mewn perthynas â gweithrediad y gweithdrefnau ar gyfer gwneud rheoliadau yn arbennig. Mae'r newidiadau hyn wedi'u rhannu a cheisiwyd arbenigedd a mewnbwn oddi wrth gyrff allweddol sy'n cynrychioli trethi a chyfrifyddiaeth. O gofio lefel yr ymatebion i'r ymgynghoriad a hyd y ddeddfwriaeth, bernid ei bod yn fwy priodol ac effeithlon rhannu a gwahodd sylwadau ar y ddeddfwriaeth oddi wrth randdeiliaid allweddol yn hytrach na chyhoeddi Bil drafft fel rhan o ymgynghoriad llawn.

### *Ymgynghori yn y dyfodol ar reoliadau a wneir o dan y Bil hwn*

4.15 Mewn llawer o achosion, ni fydd Gweinidogion Cymru yn gwahodd sylwadau ar y bwriad i ddeddfu gan ddefnyddio'r pwerau a ddarperir gan y Bil, natur y newid nac ar ei amseriad cyn gwneud rheoliadau. Er hynny, yn ddarostyngedig i'r risg o ragflaenu rhoddir ystyriaeth fesul achos i ymgysylltu'n anffurfiol, ac yn gyfrinachol, â rhanddeiliaid allweddol, cyn ac wrth ddrafftio rheoliadau i ganfod a fydd y ddeddfwriaeth yn cyflawni ei hamcan. Yn benodol, lle diben y rheoliadau yw ymateb i newidiadau a wneir gan Lywodraeth y DU i dreth ragflaenol, neu os nad oes angen i'r dyddiad dod i rym fod ar unwaith, efallai y bydd cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu. Bydd manylion unrhyw ymgynghoriad, neu resymau manwl dros beidio â chynnal ymgynghoriad o'r fath, yn cael eu nodi yn y Memorandwm Esboniadol a fydd yn cyd-fynd ag unrhyw reoliadau yn y dyfodol.

## **5. Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth**

5.1 Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth. Mae tabl 1 yn nodi mewn perthynas â'r rhain:

- i. y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo;

- ii. ym mha ffurf y dylid arfer y pŵer;
- iii. priodoldeb y pŵer sydd wedi'i ddirprwyo;
- iv. y weithdrefn sydd wedi'i chymhwyso; hynny yw, p'un a yw'n "weithdrefn gadarnhaol", yn "weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed'", yn "weithdrefn negyddol", neu "ddim gweithdrefn", ynghyd â rhesymau pam y credir ei bod yn briodol.

5.2 Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ynghylch cynnwys yr is-ddeddfwriaeth lle y bernir ei bod yn briodol gwneud hynny. Penderfynir ar union natur yr ymgynghoriad pan fydd y cynigion yn cael eu ffurfioli.



**Tabl 1: Crynodeb o'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yn narpariaethau Bil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu)**

Adran:	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Y Weithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
Adran 1 (1a-d)	Gweinidog -ion Cymru	Rheoliadau	<p>Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gael y pŵer i addasu Deddfau Trethi Cymru a'r rheoliadau a wneir o dan y Deddfau hynny. Ni chaiff y pŵer hwn ei ddefnyddio ond pan fydd un o Weinidogion Cymru o'r farn bod yr addasiadau'n angenrheidiol neu'n briodol at unrhyw rai o'r dibenion canlynol neu mewn cysylltiad â hwy.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>a) sicrhau nad yw'r dreth gwarediadau tirlenwi neu'r dreth trafodiadau tir yn cael ei gorfodi lle y byddai gwneud hynny yn anghydnaws ag unrhyw rywmedigaethau rhyngwladol</li> <li>b) diogelu rhag osgoi trethi mewn perthynas</li> </ul>	Cadarnhaol drafft neu Gadarnhaol 'gwnaed'	<p>Rhagnodir y weithdrefn gadarnhaol ddrafft lle y mae Gweinidogion Cymru'n nodi bod angen ymateb yn gyflym i amgylchiadau allanol.</p> <p>Rhagnodir y weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' mewn achosion lle y mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod eu hangen am resymau brys.</p>

Adran:	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Y Weithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			<p>â'r dreth gwarediadau tirlenwi neu'r dreth trafodiadau tir;</p> <p>c) ymateb i newid i dreth ragflaenol sy'n effeithio, neu a allai effeithio, ar y symiau a delir i Gronfa Gyfunol Cymru o dan adran 118(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (c. 32);</p> <p>d) ymateb i benderfyniad gan lys neu dribiwnlys sy'n effeithio, neu a allai effeithio ar, weithrediad unrhyw rai o Ddeddfau Trethi Cymru neu reoliadau a wneir o dan unrhyw un o'r Deddfau hynny.</p>		
Adran 7	Gweinidog -ion Cymru	Rheoliadau	Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gael y pŵer i ddarparu un cyfle i'r Senedd gymeradwyo rheoliadau a osodir gan Weinidogion Cymru a fydd yn ymestyn y pŵer i wneud rheoliadau am	Cadarnhaol drafft	Bydd y weithdrefn gadarnhaol ddrafft yn caniatáu i'r Senedd graffu ar yr angen i ymestyn oes y pŵer i wneud rheoliadau

Adran:	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Y Weithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			gyfnod o hyd at 5 mlynedd bellach o'r dyddiad y rhagwelir y deuant i ben o ganlyniad i'r cymal machlud.		am hyd at 5 mlynedd arall cyn y gall hyn gael effaith.

5.3 Nid oes unrhyw bwerau i wneud cyfarwyddydau na chyhoeddi codau a chanllawiau yn narpariaethau'r Bil.

## RHAN 2 – ASESIAID EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### Bil Deddfau Trethi Cymru (Pŵer i Addasu)

**Yr opsiwn a ffeirir:** cyflwyno deddfwriaeth sy'n cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau cadarnhaol drafft neu gadarnhaol 'gwnaed' mewn perthynas â Deddfau Trethi Cymru y gellir eu defnyddio i sicrhau bod modd gwneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru ar fyr rybudd er mwyn ymateb i nifer o amgylchiadau allanol:

- v. i sicrhau nad yw trethi datganoledig Cymru yn cael eu gorfodi lle y byddai gwneud hynny yn anghydnaws â rhwymedigaethau rhyngwladol;
- vi. i ddiogelu rhag osgoi trethi mewn perthynas â threthi datganoledig Cymru;
- vii. i ymateb i newidiadau a wneir gan Lywodraeth y DU i drethi 'rhagflaenol' y DU (hynny yw, un lle mae gennym dreth ddatganoledig gyfatebol) sy'n effeithio, neu a allai effeithio ar y swm a delir i Gronfa Gyfunol Cymru; a
- viii. i ymateb i benderfyniadau'r llysoedd/tribiwnlysoedd sy'n effeithio ar weithrediad Trethi Datganoledig Cymru neu a allai effeithio arnynt, neu unrhyw reoliadau a wneir oddi tanynt.

Nid oes unrhyw gostau o ganlyniad i'r Bil yn uniongyrchol. Bydd y costau'n codi pan fydd unrhyw is-ddeddfwriaeth yn cael ei llunio, ac os digwydd hynny. Nid yw'r costau gweinyddol a gweithredu sydd ynghlwm wrth gyflwyno'r cyfryw newidiadau drwy is-ddeddfwriaeth, na'r amserlen gysylltiedig, yn hysbys ar hyn o bryd. Byddai asesiad effaith llawn a chadarn, gan gynnwys costau amcangyfrifedig, yn cael ei gwblhau ar gyfer unrhyw reoliadau a wneir yn y dyfodol o dan y pŵer a ddarperir gan y Bil hwn i wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru. Bydd hyn yn rhan o rwymedigaeth Llywodraeth Cymru i gyhoeddi Memorandwm Esboniadol ar yr adeg y caiff y rheoliadau eu gwneud neu eu gosod ar ffurf drafft, a byddai'n cynnwys sail resymegol ar gyfer pam y dylai'r rheoliadau fod yn destun naill ai'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft neu'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed', a goblygiadau peidio â gwneud y rheoliadau.

<b>Cam:</b> Gwelliannau	<b>Cyfnod gwerthuso:</b> 2021/22 - 2022/23	<b>Blwyddyn sail brisiau:</b> Dim
<b>Cyfanswm Cost</b> <b>Cyfanswm:</b> Anhysbys <b>Gwerth presennol:</b> Dim	<b>Cyfanswm Manteision</b> <b>Cyfanswm:</b> Anhysbys <b>Gwerth presennol:</b> Dim	<b>Gwerth Presennol Net:</b> Dim

## Cost gweinyddu

**Costau:** Diben y Bil yw sicrhau ei bod yn bosibl gwneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru o dan rai amgylchiadau drwy reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru. Felly, nid oes unrhyw gostau gweinyddol uniongyrchol o ganlyniad i'r Bil. Bydd y costau yn codi pan gaiff unrhyw is-ddeddfwriaeth ei pharatoi. Mae'n debygol y bydd Llywodraeth Cymru ac Awdurdod Cyllid Cymru, o bosibl, yn mynd i gost weinyddol yn sgil y gwaith hwn. Fodd bynnag, mae ansicrwydd ynghylch y gost hon ar hyn o bryd am nad yw'r math penodol o newid yn hysbys. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, mae'n debygol y bydd y costau yr eir iddynt gan Lywodraeth Cymru ac Awdurdod Cyllid Cymru yn cael eu talu o gyllidebau presennol.

Gan mai newidiadau eithriadol, nas rhagwelir bydd y rhain, mae'n anodd eu dosbarthu'n grwpiau ymlaen llaw. Er enghraifft, ar gyfer achosion o osgoi trethi, gallai fod diwygiad er mwyn sicrhau y cyflawnir effaith fwriedig wreiddiol y ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddai hynny'n galw am newidiadau eraill (fel yr angen i newid ffurflen dreth), neu gallai fod angen prosesau ychwanegol. Gall fod cost ynghlwm wrth y cyfryw newidiadau. Fodd bynnag, gallai hyn gael ei wrthbwysu o bosibl gan arbedion ymylol ar weithgarwch cydymffurfio pellach, neu weithgarwch ymglyfreitha, os bydd y newid deddfwriaethol yn atal achosion pellach o osgoi trethi.

Ni wyddys sawl gwaith y caiff y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Fodd bynnag, disgwylir mai nifer fach o weithiau y caiff ei ddefnyddio ac y bydd yn gyfyngedig i'r amgylchiadau a nodir, yn enwedig gan fod oes y pŵer i wneud rheoliadau yn gyfyngedig (gweler paragraff 3.57). Caiff nifer y darnau o is-ddeddfwriaeth ei adolygu'n barhaus fel rhan o unrhyw waith y mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wedi ymrwymo iddo ar gyfer y dyfodol i bennu trefniadau newydd ar gyfer gwneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru.

I grynhoi, nid oes unrhyw gostau ynghlwm wrth y Bil yn uniongyrchol. Nid yw'r costau gweinyddol a fydd yn codi drwy is-ddeddfwriaeth yn y dyfodol yn hysbys, gan nad yw'n bosibl mesur maint a natur y newidiadau posibl sydd eu hangen i Ddeddfau Trethi Cymru yn y dyfodol, y caiff Gweinidogion Cymru ymateb iddynt gan ddefnyddio'r pŵer a ddarperir gan y Bil. Mae'r fath lefel o ansicrwydd yn golygu y byddai ceisio darparu costau yn cynhyrchu ffigurau a allai fod yn gamarweiniol a/neu amrywiaeth o gostau sy'n rhy eang i ychwanegu gwerth gwirioneddol.

<b>Pontio: Anhysbys</b>	<b>Rheolaidd: Anhysbys</b>	<b>Cyfanswm: Anhysbys</b>	<b>Gwerth Presennol:</b>
<p><b>Arbedion cost:</b> Ni ragwelir unrhyw arbedion cost pontio. Fodd bynnag, un o amcanion allweddol y Bil yw sicrhau bod modd gwneud arbedion cost yn y dyfodol drwy ddarparu dull lle y gall Gweinidogion Cymru ymateb yn gyflym i newidiadau i bolisi trethi Llywodraeth y DU sy'n effeithio ar drethi datganoledig ac, yn sgil hynny, y grant bloc. Bydd hyn yn diogelu refeniw Cymru. Gallai fod arbedion cost ymylol bellach hefyd o ran costau cydymffurfio neu ymgyfreitha Awdurdod Cyllid Cymru os llwyddir i atal achosion o osgoi trethi yn y dyfodol. Enghraifft o newid diweddar yw cyflwyno newidiadau dros dro i gyfraddau'r Dreth Trafodiadau Tir ym mis Gorffennaf 2020. Er bod gan Lywodraeth Cymru bwerau cadarnhaol 'gwnaed' eisoes yn yr achos hwn i ddelio â newidiadau mewn cyfraddau, y dybiaeth yw y gall fod achlysuron yn y dyfodol pan fydd newidiadau pellach y bydd angen i Weinidogion Cymru ymateb yn gyflym iddynt.</p>			
<b>Pontio: Anhysbys</b>	<b>Rheolaidd: Anhysbys</b>	<b>Cyfanswm: Anhysbys</b>	<b>Gwerth Presennol:</b>
<p><b>Cost gweinyddu net: Dim costau uniongyrchol</b></p>			

### **Costau cydymffurfio**

<p>Mae'n bosibl y bydd y Bil yn arwain at gostau cydymffurfio yn y dyfodol ond, fel gydag elfennau eraill, bydd yr union gostau hynny a'u maint yn dibynnu ar natur newidiadau yn y dyfodol. Felly, nid yw'r costau cydymffurfio yn hysbys.</p>			
<b>Pontio: Anhysbys</b>	<b>Rheolaidd: Anhysbys</b>	<b>Cyfanswm: Anhysbys</b>	<b>Gwerth Presennol:</b>

## Costau eraill

Ni ragwelir unrhyw gostau eraill.

<b>Pontio:</b>	<b>Rheolaidd:</b>	<b>Cyfanswm:</b>	<b>Gwerth Presennol:</b>
----------------	-------------------	------------------	--------------------------

## Costau heb eu meintioli neu anfanteision

Nid oes unrhyw effeithiau uniongyrchol o ganlyniad i'r Bil ei hun. Bydd costau gweinyddol heb eu meintioli o ganlyniad i reoliadau a wneir gan y ddeddfwriaeth hon. Nid yw'n bosibl meintioli'r costau ychwanegol hyn ar hyn o bryd ac nid yw'r costau amcangyfrifedig na'r arbedion cost yn hysbys. Fodd bynnag, bydd Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol ar wahân, gan gynnwys costau amcangyfrifedig, yn cael eu cwblhau ar gyfer unrhyw reoliadau a wneir gan ddefnyddio'r pwerau yn y Bil.

## Manteision

Un o fanteision allweddol y Bil yw sicrhau bod gan Weinidogion Cymru ddull ystwyth a chymesur i wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru mewn ymateb i newidiadau polisi trethi a wneir gan Lywodraeth y DU i drethi 'rhagflaenol' y DU (hynny yw, un lle mae gan Gymru dreth ddatganoledig gyfatebol<sup>15</sup>), a bod y Senedd yn gallu craffu arnynt. Yn benodol, caiff y pŵer ei ddefnyddio i ddiogelu refeniw treth Llywodraeth Cymru, neu leihau atebolrwyddau trethdalwyr mewn ffordd amserol. Ar hyn o bryd, os bydd Llywodraeth y DU yn cyflwyno newid i 'dreth ragflaenol' sy'n effeithio ar drethi a ddatganolwyd i Gymru ac, yn sgil hynny, grant bloc Cymru, a hynny ar unwaith, mae Gweinidogion Cymru yn gyfyngedig o ran ei hadnoddau i ymateb i'r newid hwnnw mewn ffordd amserol a chymesur. Un o fanteision ychwanegol y Bil yw y bydd yn ceisio cynnig ffordd arall o atal achosion o osgoi talu trethi a ddatganolwyd i Gymru pan gaiff yr achosion hynny eu nodi.

Ni ellir meintioli'r fantais hon, ond gallai fod yn sylweddol. Fodd bynnag, byddai'r costau amcangyfrifedig yn dibynnu ar y math o newid a wneir ac nid yw hyn yn hysbys ar hyn o bryd.

<b>Cyfanswm: Anhysbys</b>	<b>Gwerth Presennol:</b>
---------------------------	--------------------------

<sup>15</sup> Ar hyn o bryd mae 'trethi rhagflaenol' yn cyfeirio at Dreth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi, sef trethi'r DU sy'n cyfateb i'r trethi sydd bellach wedi'u datganoli yng Nghymru.

## Tystiolaeth, rhagdybiaethau ac ansicrwydd allweddol

Un o nodau allweddol y Bil yw darparu dull priodol a hyblyg i oresgyn ansicrwydd posibl (hynny yw, darparu mecanwaith cymesur i ymateb i newidiadau i bolisi trethi a gyflwynir ar fyr rybudd gan Lywodraeth y DU sy'n effeithio ar adnoddau Llywodraeth Cymru). Yn benodol, gwelir hyn drwy'r gyfres o newidiadau y mae Llywodraeth y DU wedi'u gwneud i Dreth Dir y Dreth Stamp yn gymharol reolaidd ac, yn aml, ar unwaith neu fwy neu lai'n syth ar ôl eu cyhoeddi.

Er enghraifft, ar 1 Ebrill 2016, cyflwynodd Llywodraeth y DU system codi treth newydd gyda chyfraddau newydd, uwch o dreth dir y dreth stamp yn cael eu codi ar anheddau a brynir os oes gan y prynwr fuddiant mewn annedd arall eisoes. Ni all Gweinidogion Cymru gyflwyno tâl newydd drwy'r pwerau sydd gennym i wneud rheoliadau ar hyn o bryd. Yn yr achos hwn, bu modd inni gyflwyno tâl tebyg drwy Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 pan oedd yn mynd drwy gyfnodau craffu'r Senedd. Fodd bynnag, fel arall, byddai'r addasiad i'n grant bloc wedi bod yn fwy o lawer na'r referniw o'r dreth trafodiadau tir, a byddai wedi arwain at lawer llai o adnoddau, neu angen i gynyddu'r cyfraddau a godir ar drethdalwyr eraill. Dangosir hyn gan y cyfraddau uwch ar anheddau ychwanegol, a gododd tua £60 miliwn yng Nghymru yn 2018-19. Mae'r gost bosibl yma yn dibynnu ar faint o newid a wneir i bolisi gan Lywodraeth y DU ond gallai fod yn sylweddol iawn.

## 7. Opsiynau

7.1 Amlinellir dau opsiwn isod ac ystyrir manteision ac anfanteision y ddau yn fras. Yr opsiynau yw:

- Opsiwn 1 – gwneud dim
- Opsiwn 2 – rhoi Bil ar waith a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru gan ddefnyddio rheoliadau cadarnhaol 'gwnaed' neu ddrafft er mwyn ymateb i nifer o amgylchiadau allanol lle y mae angen newid Deddfau Trethi Cymru ar unwaith neu'n fuan iawn wedi hynny

7.2 Yna, ceir dadansoddiad o gostau a manteision y ddau opsiwn ym Mhennod 8.



- 7.3 Mae'r ymgynghoriad *Datganoli Trethi yng Nghymru – Ei gwneud yn bosibl cyflwyno newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru*<sup>16</sup>, a gynhaliwyd yn 2020, yn nodi'r angen i sicrhau bod modd gwneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru ar fyr rybudd mewn nifer o amgylchiadau fel:
- i. i atal achosion o osgoi trethi a ddatganolwyd i Gymru,
  - ii. i gydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol,
  - iii. i ymateb i benderfyniad tribiwnlys neu lysoedd uwch, ac
  - ix. i ymateb i newidiadau i bolisi trethi a wneir gan Lywodraeth y DU i drethi 'rhagflaenol' y DU (hynny yw, un lle mae gan Gymru dreth ddatganoledig gyfatebol<sup>17</sup>).
- 7.4 Ystyrir mai dim ond dau opsiwn sydd ar gael ar hyn o bryd, neu a fydd ar gael cyn hir, y gellir eu rhoi ar waith er mwyn gwneud newidiadau penodol i Ddeddfau Trethi Cymru ar fyr rybudd: naill ai dibynnu ar fecanweithiau presennol neu roi mecanweithiau newydd cymesur ac ystwyth ar waith i gyflwyno'r cyfryw newidiadau drwy is-ddeddfwriaeth. Ar y cyfan, roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad o blaid gweithredu Bil.
- 7.5 Opsiwn arall a ystyriwyd yn yr ymgynghoriad oedd cyflwyno Bil sy'n cyfateb i Fil Cyllid blynyddol Llywodraeth y DU. Byddai Bil Cyllid i Gymru, i bob pwrpas, yn cynnwys mesurau codi refeniw a rhai penderfyniadau ynghylch pennu trethi. Byddai hefyd yn darparu mecanwaith ar gyfer gwneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru. Yn y ddogfen ymgynghori, nodir mai un o'r ystyriaethau allweddol yw nifer y darnau o is-ddeddfwriaeth a gynhyrchir gan Ddeddfau Trethi Cymru a ph'un a yw'n ymarferol i grynhoi'r ddeddfwriaeth honno mewn bil blynyddol, neu fil a gyflwynir yn llai aml. Ers i'r trethi gael eu cyflwyno ym mis Ebrill 2018, mae un ar ddeg set o is-ddeddfwriaeth wedi cael eu gwneud. Mae'r rhain yn cynnwys pedwar cynnydd blynyddol yn seiliedig ar chwyddiant i'r cyfraddau sy'n daladwy ar gyfer y dreth gwarediadau tirlenwi a dau a oedd yn darparu'r cyfnod o ostyngiad treth dros dro, rhwng 27 Gorffennaf 2020 a 30 Mehefin 2021.
- 7.6 Fel y nodir ym mharagraff 3.57, mae'r Bil hwn yn cynnwys cymal machlud sy'n cyfyngu oes y pŵer i wneud rheoliadau. Mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wedi ymrwymo i bensaerniaeth hirdymor ar gyfer gwneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru, a fydd yn cynnwys ystyried p'un a ydy'n briodol i Gymru gael Bil Cyllid / Trethi blynyddol, neu lai rheolaidd.
- 7.7 O gofio'r cysylltiad rhwng yr ymdrech dreth a wneir gan 'drethi rhagflaenol' y DU – hynny yw, y trethi hynny a ddatganolwyd i Gymru – a'u heffeithiau ar adnoddau Llywodraeth Cymru drwy'r addasiad i'r grant bloc, mae'r gallu i ymateb yn gyflym, yn hyblyg a'r tu allan i broses

---

<sup>16</sup> Gellir gweld Datganoli Trethi: Ei gwneud yn bosibl cyflwyno newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru (Gorffennaf 2020) yn: <https://llyw.cymru/ei-gwneud-yn-bosibl-cyflwyno-newidiadau-i-ddeddfau-trethi-cymru>

<sup>17</sup> Ar hyn o bryd, mae trethi 'rhagflaenol' yn cyfeirio at Dreth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi – trethi'r DU sy'n cyfateb i'r trethi sydd bellach wedi'u datganoli yng Nghymru.

cyllideb Cymru yn hanfodol. Felly, gall fod angen i elfennau o'r Bil hwn fod yn rhan o'r datrysiad tymor hwy hwnnw o hyd. Mae mynd ati i wneud newidiadau heb gyfrwng deddfwriaethol blynyddol yn gymhleth. Mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wedi ymrwymo i wireddu fframwaith hygyrch ar gyfer ein trethdalwyr a'u cynghorwyr – rhywbeth nad yw bob amser yn wir yn achos newidiadau Llywodraeth y DU.

- 7.8 Yn olaf, yn ei hymateb<sup>18</sup> i Ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid i broses ddeddfwriaethol ar gyfer y gyllideb<sup>19</sup>, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y byddai Bil Cyllid sy'n cwmpasu trethiant a chynlluniau gwariant yn arwain at nifer o gymhlethdodau ac y byddai angen ei ystyried yn ofalus iawn. Nid ystyrir bod yr opsiwn hwn o fewn cwmpas yr asesiad hwn.

### Opsiwn 1: Gwneud dim

- 7.9 Yn y senario hon, pe bai'n cael ei nodi bod angen gwneud un o'r mathau o newidiadau a nodir ym mharagraff 3.2 i Ddeddfau Trethi Cymru ar fyr rybudd, byddai Llywodraeth Cymru yn gallu defnyddio un o dri mecanwaith deddfwriaethol sy'n bodoli eisoes i roi'r newid ar waith:

- proses bresennol y Bil Brys neu 'garlam'. Byddai hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi newid ar waith yn gymharol<sup>20</sup> fyr rybudd. Byddai costau neu risgiau ariannol ac o ran enw da i Lywodraeth Cymru wrth ddefnyddio'r mathau hyn o fecanweithiau nad ydynt braidd wedi cael eu defnyddio'n flaenorol a dim ond mewn amgylchiadau eithriadol. Byddai llai o amser neu gyfleoedd cyfyngedig i graffu arnynt hefyd. Mae Bil Brys yn dwyn costau 'busnes fel arfer' y Senedd ac yn dilyn, yn fras, y pedwar Cyfnod arferol y mae'r Senedd yn mynd drwydynt wrth ystyried Bil, ond gyda rhai addasiadau sylweddol i fynd ag ef drwy'r Cyfnodau yn gyflym. Nid Biliau Brys yw Biliau 'carlam', ac nid yw'r un gofynion yn gymwys iddynt. Nid ydynt ychwaith yn ddarostyngedig i'r un Rheolau Sefydlog. Byddai Bil 'carlam' yn mynd drwy'r Cyfnodau mor gyflym ag y bo modd, ond gwneir hynny yn unol â'r Rheolau Sefydlog ar gyfer Bil arferol o hyd. Byddai'r cyfryw Fil hefyd yn dwyn costau 'busnes fel arfer' y Senedd a Llywodraeth Cymru. Mae paragraffau 2.7-2.27 o ymgynghoriad *Ei gwneud yn bosibl cyflwyno newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru (2020)*<sup>21</sup> yn nodi'r prosesau ar gyfer Biliau Brys a 'charlam' yn fanwl.
- y broses safonol bresennol ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol, sy'n debygol o gymryd tua 12 i 18 mis. Byddai'r mecanwaith deddfwriaethol hwn yn sicrhau bod modd cynnal prosesau

<sup>18</sup> Hydref 2020 <https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld13501/cr-ld13501-w.pdf>

<sup>19</sup> Awst 2020 <https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld13398/cr-ld13398-w.pdf>

<sup>20</sup> Hynny yw, ar gyfer y mathau hyn o fecanweithiau deddfwriaethol, efallai y caiff newid ei roi ar waith unwaith y bydd Bil Brys neu Fil 'carlam' yn cael y Cydsyniad Brenhinol, sydd fel arfer yn cymryd tua thri mis.

<sup>21</sup> Ar gael yn: <https://llyw.cymru/ei-gwneud-yn-bosibl-cyflwyno-newidiadau-i-ddeddfau-trethi-cymru>

tystiolaeth a chraffu estynedig a thrylwyr, ond ni fyddai'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud newid gofynnol i Ddeddfau Trethi Cymru ar fyr rybudd.

- mewn rhai achosion, y pwerau is-ddeddfwriaethol sy'n bodoli eisoes yn Neddfau Trethi Cymru. Er bod nifer o bwerau sy'n golygu bod modd rhoi newidiadau ar waith, fel y gallu i greu, diwygio neu ddirymu rhyddhadau o'r dreth trafodiadau tir, maent yn ddarostyngedig yn bennaf i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft. Mae hyn yn golygu mai dim ond pan fydd y Senedd wedi cymeradwyo'r broses o wneud y rheoliadau y gall y rheoliadau hynny gael effaith. Bydd hyn yn arwain at oedi o ran y dyddiad y gall newid ddod i rym. I'r gwrthwyneb, gall Llywodraeth y DU wneud newidiadau i drethi presennol ar unwaith drwy Ddeddf Casglu Trethi Dros Dro 1968. Dim ond drwy reoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' y mae Deddfau Trethi Cymru yn caniatáu i gyfraddau treth a bandiau treth gael eu newid. At hynny, mae rhannau o Ddeddfau Trethi Cymru lle na chymerwyd pwerau penodol i wneud rheoliadau; yn y dreth trafodiadau tir, un maes allweddol yw'r darpariaethau sy'n ymwneud â chyfrifo treth. Er enghraifft, pe bai Llywodraeth Cymru yn ystyried cyflwyno gordal newydd, mae'n annhebygol y gellid cyflawni hyn yn llawn drwy'r set bresennol o bwerau gwneud rheoliadau.

## **Opsiwn 2: Rhoi Bil ar waith er mwyn ei gwneud yn bosibl i reoliadau gael eu cyflwyno i wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru o dan amgylchiadau penodol ar fyr rybudd**

7.10 Yn y senario hon, bydd Gweinidogion Cymru yn cael y pwerau i gyflwyno is-ddeddfwriaeth i wneud newidiadau penodol i Ddeddfau Trethi Cymru ar fyr rybudd. Ar gyfer pob un o'r mathau o newidiadau a nodir ym mharagraff 3.2, byddai hyn yn golygu y byddai gan Weinidogion Cymru ddull o ymateb yn brydlon ac yn gymesur:

- Er mwyn atal achosion o osgoi trethi a ddatganolwyd i Gymru.** Mae'r gallu i atal gweithgarwch osgoi er budd dinasyddion Cymru am y bydd yn diogelu'r refeniw y mae gwasanaethau cyhoeddus yn dibynnu arno. Mae'n annheg i bobl geisio osgoi eu hatebolrwydd treth. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn gallu ymateb mor gyflym â phosibl er mwyn rhoi terfyn ar y gweithgarwch hwn.
- Er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol.** Mae'r gallu i wneud newidiadau cyflym y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau rhyngwladol wedi'i anelu'n bennaf at ddiogelu enw da Cymru a Llywodraeth Cymru.
- Er mwyn ymateb i benderfyniad tribiwnlys neu lysoedd uwch.** Bwriedir i hyn gwmpasu sefyllfaoedd lle y mae angen gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth, er enghraifft lle y cafwyd penderfyniad

anffafriol gan lys. Byddai'r pŵer yn cael ei ddefnyddio cyn lleied â phosibl o dan yr amgylchiadau hyn.

- iv. **Pan wneir newidiadau i drethi rhagflaenol y DU gan Lywodraeth y DU a fydd yn effeithio ar yr addasiad i grant bloc Cymru ac, felly, adnoddau Llywodraeth Cymru yn gyffredinol.** Byddai ymateb yn amserol yn golygu bod newidiadau yn gallu cael eu gwneud i'r trethi datganoledig er mwyn diogelu'r refeniw sydd ar gael ar gyfer ein gwasanaethau cyhoeddus hanfodol yng Nghymru. Hefyd, os bydd Llywodraeth y DU yn lleihau ei hymdrech dreth drwy dreth ragflaenol, bydd yn rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru gynnig gostyngiadau tebyg i drethdalwyr Cymreig yn gynt nag y byddai modd ei wneud drwy ddefnyddio mecanweithiau presennol.

## 8. Costau a manteision

- 8.1 Mae'r dadansoddiad cost ar gyfer Opsiynau 1 a 2 yn asesiad o'r gwahanol fecanweithiau deddfwriaethol yn bennaf. Mae'n rhoi cymhariaeth eang o'r costau nodweddiadol pe bai angen i Weinidogion Cymru wneud newid deddfwriaethol i Ddeddfau Trethi Cymru ar fyr rybudd er mwyn ymateb i amgylchiadau allanol. Yn unol â'r rhagdybiaeth allweddol, bydd yr adnodd sydd ei angen i fwrw ymlaen â Bil brys neu Fil 'carlam', deddfwriaeth sylfaenol, neu ddefnyddio'r pwerau presennol i wneud is-ddeddfwriaeth, yn cyfateb yn fras i'r adnodd sydd ei angen ar Weinidogion Cymru i ymateb gan ddefnyddio'r pŵer i wneud rheoliadau a nodir yn opsiwn 2. Byddai unrhyw fân gostau ychwanegol neu arbedion cost yn cael eu hamsugno o fewn gweithgareddau presennol a'r costau rhedeg heb fawr o effaith.
- 8.2 Byddai'r costau allweddol yn dibynnu ar y math o newid deddfwriaethol sydd ei angen, a'r gost sydd ynghlwm wrth roi'r newid ar waith. Nid yw'r costau gweinyddol a gweithredu sydd ynghlwm wrth gyflwyno'r cyfryw newidiadau drwy is-ddeddfwriaeth, na'r amserlen gysylltiedig, yn hysbys ar hyn o bryd. Ar y cyfan, gall fod costau cydymffurfio, ac arbedion cost o bosibl, i rai busnesau a dinasyddion. Fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu ar natur y newidiadau a'r rheoliadau a wneir yn y dyfodol. Mae'r asesiad hwn yn tybio y byddai unrhyw gostau gweithredu (er enghraifft, newidiadau i systemau neu brosesau Awdurdod Cyllid Cymru) yr un fath ni waeth pa fecanwaith deddfwriaethol a fyddai'n cael ei ddefnyddio i gyflwyno'r newid.
- 8.3 Byddai asesiad effaith ar wahân, gan gynnwys costau amcangyfrifedig, yn cael ei gwblhau pan fyddai'r pwerau gwneud rheoliadau a ddarperir gan y Bil yn cael eu defnyddio i wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru. Bydd hyn yn rhan o rwymedigaeth Llywodraeth Cymru i gyhoeddi Memorandwm Esboniadol ar yr adeg y caiff y rheoliadau eu gwneud neu eu gosod ar ffurf drafft, a byddai'n esbonio pam y dylai'r rheoliadau fod yn destun naill ai gweithdrefn gadarnhaol ddrafft neu weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed', a goblygiadau peidio â gwneud y rheoliadau.

## Opsiwn 1 – Gwneud dim

### *Costau*

8.4 O dan yr opsiwn hwn, er mwyn ymateb i angen a nodir am newid, byddai Llywodraeth Cymru yn gwneud penderfyniad ynghylch pa fecanwaith deddfwriaethol presennol i'w ddefnyddio yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol. Byddai'r costau'n dibynnu ar y math o fecanwaith deddfwriaethol a roddir ar waith, p'un ai drwy bwerau brys, carlam, deddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth bresennol.

### *Bil Brys / Bil 'carlam'*

8.5 Ar gyfer Bil Brys neu ddeddfwriaeth 'garlam', byddai costau gweinyddol nodweddiadol Llywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â'r math hwn o ddeddfwriaeth yn berthnasol. Efallai y bydd yr amserlenni byrrach ynghyd â gofynion Bil Brys neu Fil 'carlam' yn gofyn am neilltuo cryn dipyn o adnoddau gan Lywodraeth Cymru, er y byddai hynny am gyfnod byr. Yn ogystal â mewnbwn gan yr adran bolisi, y gwasanaethau cyfreithiol, y cwnsleriaid deddfwriaethol a'r gwasanaeth cyfieithu, mae'n debygol y byddai angen cymorth ychwanegol i ffurfio 'tîm y Bil' (Rheolwr y Bil a Dirprwy Reolwr y Bil o leiaf fel arfer). Byddai'r gost hon yn dibynnu ar faint y ddeddfwriaeth a pha mor gymhleth ydyw.

### *Deddfwriaeth sylfaenol*

8.6 Ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol, byddai costau gweinyddol nodweddiadol sy'n gysylltiedig â drafftio a rheoli Bil y Llywodraeth. Mae'r gofynion o ran adnoddau yn debygol o fod yn debyg i'r rhai ar gyfer Bil Brys neu Fil 'carlam', o ran ffurfio 'tîm y Bil'; fodd bynnag, eir i'r costau hyn dros gyfnod hwy, tua 12-18 mis fel arfer.

8.7 Yn allweddol, ni fyddai defnyddio deddfwriaeth sylfaenol yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb yn gyflym pe bai angen rhoi newid a nodwyd ar waith. Mae effaith yr oedi hwn yn debygol o ddibynnu ar y math o newid. Bydd hyn yn cynnwys:

- i. Derbyn y bydd unrhyw **weithgarwch osgoi** yn parhau yng Nghymru am tua 12-18 mis. Bydd costau methu ag atal gweithgarwch osgoi mor gyflym â phosibl yn dibynnu, wrth gwrs, ar y gweithgarwch a dargedir. Gallai olygu y collir symiau sylweddol o refeniw treth. Hefyd, gallai fod mwy o gostau adnoddau i Awdurdod Cyllid Cymru mewn perthynas â gweithgarwch cydymffurfio pellach (a threuliau ymglyfreitha posibl) wrth fynd i'r afael ag unrhyw achosion ychwanegol sy'n codi yn y cyfamser.

- ii. Derbyn na fydd Cymru yn cydymffurfio â'i **rhwymedigaethau rhyngwladol** am tua 12-18 mis. Ar y cyfan, mae'n debygol y bydd y gost bosibl yma yn ymwneud yn fwy ag enw da.
- iii. Derbyn na fydd Gweinidogion Cymru yn gallu ymateb i **benderfyniadau tribiwnlys neu lysoedd uwch** am tua 12-18 mis, a allai arwain at gostau ariannol a niweidio enw da. Mae'n anodd rhagweld costau a fydd yn gysylltiedig â defnyddio'r pŵer mewn perthynas â'r maes hwn gan y gallai amrywio'n sylweddol.
- iv. Derbyn na fydd Gweinidogion Cymru yn gallu ymateb i **newidiadau a wneir i drethi rhagflaenol** ac addasiadau dilynol i grant bloc Cymru<sup>22</sup> am tua 12-18 mis, a allai olygu bod Cymru yn colli referniw. Yn y senario hon, byddai angen i Lywodraeth Cymru naill ai weithredu â chyllideb lai neu ddod o hyd i ffyrdd eraill o godi referniw o'r fath er mwyn cynnal y lefelau presennol o adnoddau. I'r gwrthwyneb, gallai hefyd arwain at oedi wrth gyflwyno newidiadau a fyddai'n lleihau'r baich treth ar drethdalwyr Cymreig.

Er enghraifft: cododd y cyfraddau uwch yng Nghymru tua £60 miliwn yn 2018-19. Pe na bai Cymru wedi bod mewn sefyllfa i ymateb a chyflwyno cyfundrefn debyg yn yr un cyfnod rhwng 25 Tachwedd 2015 a 1 Ebrill 2016, byddai'r cyfuniad o gynnydd yn yr addasiad i'r grant bloc a cholli'r referniw ychwanegol wedi arwain at leihad sylweddol yn adnoddau Llywodraeth Cymru yn gyffredinol. Y rheswm dros hyn yw y byddai treth dir y dreth stamp wedi bod yn gwneud mwy o ymdrech dreth ac y byddai'r addasiad i'r grant bloc wedi cael ei addasu i gynnwys yr ymdrech gynyddol honno. Roedd hwn yn fater na chododd am nad oedd y dreth trafodiadau tir wedi dod i rym eto ac am fod cyfundrefn cyfraddau uwch wedi cael ei chynnwys yn Neddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 ar ôl i Lywodraeth Cymru geisio barn ar ei dull o ymdrin â chyfraddau uwch o dreth trafodiadau tir.

8.8 Anallu i ymateb yn brydlon i newidiadau a wneir i drethi rhagflaenol y DU sydd fwyaf tebygol o gael effaith sylweddol ar referniw Cymru. Mae'r gost bosibl yn dibynnu ar faint y newid polisi a roddir ar waith gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â'r trethi rhagflaenol hynny sy'n cyfateb i'r rhai a ddatganolwyd i Gymru. Gallai hyn fod yn sylweddol; er enghraifft, mae senario 4 ym Mhennod 4 o ymgynghoriad *Datganoli Trethi: Ei gwneud yn bosibl cyflwyno newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru (2020)*<sup>23</sup>, yn rhoi enghraifft ddiweddar pan gyflwynwyd cyfraddau uwch treth dir y dreth stamp ar gyfer anheddau ychwanegol yn 2016 a gynyddodd yr ymdrech

<sup>22</sup> Cyfran yr adnoddau sydd ar gael gan Lywodraeth y DU a neilltuir i Gymru.

<sup>23</sup> Gellir gweld Datganoli Treth: Ei gwneud yn bosibl cyflwyno newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru (Gorffennaf 2020) yn: <https://llyw.cymru/ei-gwneud-yn-bosibl-cyflwyno-newidiadau-i-ddeddfau-trethi-cymru>

dreth<sup>24</sup>. Cododd y cyfraddau uwch yng Nghymru tua £60 miliwn yn 2018-19. Pe na bai Cymru wedi bod mewn sefyllfa i ymateb a chyflwyno cyfundrefn debyg (drwy welliant i Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 yn ystod ei hynt drwy'r Senedd), byddai'r addasiad i'r grant bloc wedi bod yn llawer mwy na'r refeniw o'r dreth trafodiadau tir, a fyddai wedi arwain at leihad yn adnoddau cyffredinol Llywodraeth Cymru.

- 8.9 At hynny, byddai defnyddio mecanweithiau deddfwriaethol sylfaenol neu frys hefyd yn gallu arwain at gostau gweinyddol ychwanegol i Awdurdod Cyllid Cymru (a threthdalwyr) a fyddai'n gysylltiedig â chasglu (neu dalu) treth o'r trethdalwyr hynny a oedd yn talu yn seiliedig ar y gyfraith gyfredol, yn hytrach na'r gyfraith sy'n cynnwys y newidiadau a oedd wedi'u cynnwys yn y ddeddfwriaeth sylfaenol cyn iddi gael y Cydsyniad Brenhinol. Nid yw'r gost bosibl yn hysbys, gan y byddai'n dibynnu ar natur y newid a gyflwynid. Byddai hyn yn wir pe bai'r ddeddfwriaeth, er enghraifft, yn cynnwys dyddiad i'r newidiadau ddod i effaith sef, dyweder, y dyddiad y cyflwynwyd y bil. Ym mron pob achos, mae'n debygol y byddai'r dreth a delid yn seiliedig ar y gyfraith gyfredol ac na fyddai'n seiliedig ar y newidiadau. Mae'n bosibl y bydd defnyddio gweithdrefnau Bil Brys neu 'garlam' yn lleihau rhywfaint o'r ansicrwydd a grëid gan yr amserlenni byrrach, ond ni fyddai'n cael gwared ar yr ansicrwydd hwnnw'n gyfan gwbl.
- 8.10 Dylid nodi, ar gyfer deddfwriaeth frys, 'garlam' a sylfaenol, y gallai effeithiau unrhyw newid ar drethi, gyda chymeradwyaeth y Senedd, gael effaith yn ôl-weithredol ar adegau prin. Gallai hyn helpu Llywodraeth Cymru i leihau'r risg y caiff mwyfwy o refeniw ei golli, yn enwedig ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol, o gofio faint o amser y gall Bil ei gymryd i fynd ar ei hynt drwy'r Senedd. Fodd bynnag, gallai fod cost bosibl o hyd i Lywodraeth Cymru ac Awdurdod Cyllid Cymru (er enghraifft, mwy o ymholiadau) yn gysylltiedig â'r ansicrwydd a grëwyd ynglŷn â pha ddeddf a fydd yn gymwys i ddigwyddiad neu weithgaredd trethadwy nes i'r ddeddfwriaeth gael y Cydsyniad Brenhinol a chychwyn.

#### *Is-ddeddfwriaeth*

- 8.11 Bydd nifer o sefyllfaoedd lle y gellid defnyddio'r pwerau presennol yn Neddfau Trethi Cymru i wneud newidiadau. Er enghraifft, mae pwerau gwneud rheoliadau yn y dreth trafodiadau tir i greu, diwygio a dirymu rhyddhadau. Ar y cyfan, mae'r pwerau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft, felly dim ond pan fydd y Senedd wedi cymeradwyo'r rheoliadau drafft y gall y rheoliadau ddod i rym. O dan rai amgylchiadau, bydd hyn yn arwain at oedi cyn y gellir rhoi newid ar

---

<sup>24</sup> Mae "ymdrech treth dir y dreth stamp" yn cyfeirio at faint o dreth y mae'r dreth a ragflaenodd y dreth trafodiadau tir yn ei chasglu. Os bydd yr ymdrech yn fwy, bydd yr addasiad i'r grant bloc yn cynyddu, gan arwain at fwy o leihad yng nghyllideb Llywodraeth Cymru, gan leihau ei hadnoddau yn gyffredinol. Os bydd ymdrech treth dir y dreth stamp yn lleihau, bydd y gwrthwyneb yn digwydd, gan arwain at fwy o adnoddau i Lywodraeth Cymru yn gyffredinol.

waith. Mae hefyd yn debygol y bydd y gostyngiad mewn refeniw yn parhau ac y bydd oedi posibl o ran trafodiadau wrth i drethdalwyr aros i'r newidiadau newydd ddod i rym (os yw'r newid yn golygu y byddant o bosibl yn talu llai o dreth).

- 8.12 Gall fod rhai amgylchiadau brys lle y byddai'n briodol i Weinidogion Cymru gyflwyno is-ddeddfwriaeth gan ddefnyddio'r pwerau newydd i wneud rheoliadau o dan y weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed', yn hytrach na'r pwerau presennol sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft. Ni ragwelir y bydd unrhyw wahaniaeth mewn costau gweinyddu rhwng y ddwy weithdrefn. Fodd bynnag, efallai y bydd rhai costau neu arbedion cost i Lywodraeth Cymru o ganlyniad i'r ffaith bod y rheoliadau cadarnhaol drafft yn dod i rym yn hwyrach na phe bai'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' wedi cael ei defnyddio. Nid yw'n bosibl meintioli'r costau neu'r arbedion cost hyn gan nad yw natur y newid yn hysbys ar hyn o bryd.
- 8.13 Un ystyriaeth allweddol arall yw bod meysydd sylweddol lle nad yw'r pwerau i wneud y newidiadau dymunol yn bodoli, sy'n golygu mai dim ond y llwybr deddfwriaeth sylfaenol y gellir ei gymryd. Er enghraifft, un maes allweddol yw'r darpariaethau sy'n ymwneud â chyfrifo treth ar gyfer y dreth trafodiadau tir. Yn y meysydd hyn, bydd y Bil yn rhoi'r pŵer i gyflwyno rheoliadau gan ddefnyddio naill ai'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft neu'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed', pa un bynnag y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried sy'n briodol yn dibynnu ar natur y newid.

### *Manteision*

- 8.14 Un o fanteision opsiwn 1 yw nad oes angen unrhyw adnoddau ar hyn o bryd i fwrw ati â'r opsiwn hwn. Fodd bynnag, pe bai angen i Lywodraeth Cymru wneud newid ar fyr rybudd, a phe na bai pwerau is-ddeddfwriaeth yn bodoli eisoes, yna mae'n debygol y byddai angen Bil Brys neu 'garlam' a byddai hyn yn galw am ddefnyddio rhagor o adnoddau. Mae sawl anfantais hefyd, gan gynnwys llai o amser neu gyfleoedd cyfyngedig i ymgymryd â gwaith craffu, risg i enw da sy'n gysylltiedig â defnyddio mecanwaith sydd braidd wedi cael ei ddefnyddio o'r blaen, a dim ond mewn amgylchiadau eithriadol, a chostau gweinyddol uwch o bosibl ac oedi cyn i'r ddeddfwriaeth ddod i rym.

## **Opsiwn 2**

### *Costau*

- 8.15 O dan yr opsiwn hwn, mae gofynion gweinyddol a gofynion o ran adnoddau i wneud y canlynol:
- i) cyflwyno'r ddeddfwriaeth sylfaenol i alluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau cadarnhaol drafft neu gadarnhaol 'gwnaed' yn y dyfodol;



- ii) cyflwyno rheoliadau cadarnhaol 'gwnaed' neu gadarnhaol drafft fel y bo angen yn y dyfodol.

8.16 Caiff costau uniongyrchol cyflwyno'r ddeddfwriaeth sylfaenol arfaethedig eu talu gan ddefnyddio cyllid presennol swyddogion a gwasanaethau cyfreithiol Llywodraeth Cymru. Nid oes unrhyw gostau eraill yn gysylltiedig â chyflwyno'r ddeddfwriaeth hon.

8.17 Ymhlith y prif gostau eraill fydd yn deillio o'r opsiwn hwn, unwaith y bydd y Bil sy'n darparu'r pwerau yn cael y Cydsyniad Brenhinol, fydd y costau gweinyddol i Lywodraeth Cymru ac Awdurdod Cyllid Cymru sydd ynghlwm wrth ddatblygu a chyflwyno'r is-ddeddfwriaeth, a chostau i'r Senedd sydd ynghlwm wrth graffu ar y ddeddfwriaeth.

8.18 Mae'r arbedion cost posibl ar gyfer opsiwn 2 yn dibynnu ar y math o newid, fel y nodir ym mharagraff 3.2:

- i. Galluogi Gweinidogion Cymru i atal gweithgarwch **osgoi** cyn gynted â phosibl drwy roi eglurhad pellach a dileu unrhyw amheuaeth am y bwriad i gymhwyso'r darpariaethau deddfwriaethol. Bydd yr arbedion costau sydd ynghlwm wrth atal gweithgarwch osgoi cyn gynted â phosibl yn dibynnu, wrth gwrs, ar y gweithgarwch hwnnw.
- ii. Galluogi Gweinidogion Cymru i sicrhau bod Deddfau Trethi Cymru yn cydymffurfio â **rhwymedigaethau rhyngwladol**, lle y bo'n briodol. Er bod yr arbedion cost posibl yn fach, os na fydd Deddfau Trethi Cymru yn cydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol, gallai hynny beri niwed i enw da.
- iii. Galluogi Gweinidogion Cymru i **ymateb i benderfyniad tribiwnlys neu lysoedd uwch**. Mae'n anodd rhagweld y costau a fydd yn gysylltiedig â defnyddio pŵer mewn perthynas â'r maes hwn gan y gallai amrywio'n sylweddol, ond bwriedir iddo gwmpasu sefyllfaoedd lle y mae angen gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth lle y cafwyd penderfyniad anffafriol gan lys o safbwynt Llywodraeth Cymru neu Awdurdod Cyllid Cymru.
- iv. Galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i **newidiadau a wneir i drethi rhagflaenol** sy'n effeithio ar grant bloc Cymru. Gallai fod arbedion cost sylweddol i Lywodraeth Cymru a threthdalwyr. Heb yr opsiwn hwn, gallai Llywodraeth Cymru fod mewn senario lle y mae angen iddi weithredu â chyllideb lai neu ddod o hyd i ffyrdd eraill o godi refeniw o'r fath er mwyn cynnal y lefelau presennol o adnoddau.

*Effaith defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' ar drethdalwyr ac Awdurdod Cyllid Cymru*

- 8.19 O dan rai amgylchiadau brys, cynigir y byddai'r rheoliadau yn cael eu gwneud gan ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed'. Mae'r weithdrefn hon yn wahanol i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft am fod effaith y rheoliadau yn gallu cael ei gwneud, a gall ddod i rym, cyn i'r Senedd gymeradwyo gwneud y rheoliadau. Mae'r rheoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' yn cael effaith dros dro nes i'r Senedd bleidleisio arnynt. Os bydd y Senedd yn cymeradwyo'r rheoliadau, bydd y newidiadau yn cael effaith barhaol. Os na fydd y rheoliadau yn cael eu cymeradwyo gan y Senedd, bydd gan drethdalwyr sydd wedi talu mwy o dreth o ganlyniad i'r newidiadau aflwyddiannus hynny hawl i wneud cais i unrhyw dreth ychwanegol a dalwyd gael ei had-dalu gan Awdurdod Cyllid Cymru. Caiff y risg sy'n gysylltiedig â'r rheoliadau ei dwyn gan Lywodraeth Cymru yn unig ac nid gan drethdalwyr Cymreig.
- 8.20 Os bydd angen newid systemau a phrosesau Awdurdod Cyllid Cymru er mwyn rhoi newidiadau deddfwriaethol ar waith, efallai y bydd costau datblygu a gweithredu ynghlwm wrth hynny. Gall fod costau o ran adnoddau i Awdurdod Cyllid Cymru hefyd wrth iddo ddelio â mwy o ymholiadau gan drethdalwyr neu eu cynghorwyr mewn ymateb i'r newidiadau. Os bydd y rheoliadau yn methu maes o law, efallai y bydd angen newidiadau pellach i systemau/prosesau er mwyn dychwelyd i'r rheolau blaenorol a helpu trethdalwyr i sicrhau eu bod yn talu'r swm cywir o dreth. Fodd bynnag, byddai hyn yn dibynnu ar union natur y darpariaethau deddfwriaethol a sut y cafodd unrhyw newidiadau eu rhoi ar waith. Mae'r gost yn debygol o fod yn isel, ond nid yw'n bosibl meintoli costau penodol ar hyn o bryd gan eu bod yn debygol o amrywio fesul achos. Byddai unrhyw gostau gweithredu posibl yr un fath ni waeth pa lwybr deddfwriaethol a fyddai'n cael ei gymryd.

*Ôl-weithredu*

- 8.21 Fel y nodir ym mharagraff 3.31 o'r Memorandwm Esboniadol, bydd newidiadau i ddeddfwriaeth trethi fel arfer yn cael effaith heb fod yn gynharach na'r dyddiad y caiff y rheoliadau eu gwneud. Fodd bynnag, bydd yn bosibl i newid gael effaith o ddyddiad cyn y dyddiad gwneud, ond bydd yn gwbl eithriadol. Darperir enghraifft lle y gwneir newid gan Lywodraeth y DU sy'n cael effaith ar unwaith ac sy'n codi symiau sylweddol o dreth gan dreth ragflaenol ac a fydd yn cael effaith sylweddol ar yr addasiad i'r grant bloc. Yn y senario hon, bwriad y defnydd o ôl-weithredu o ran costau yw diogelu refeniw Llywodraeth Cymru a lliniaru effeithiau posibl newidiadau polisi trethi'r DU sy'n effeithio ar drethi datganoledig ac felly ar grant bloc Cymru.
- 8.22 Mae paragraff 3.45 yn nodi bod Gweinidogion Cymru wedi eu gwahardd rhag cymhwyso gydag effaith ôl-weithredol o ddyddiad sydd ymhellach

yn ôl na'r dyddiad y rhybuddiwyd neu y cyhoeddwyd am y newid deddfwriaethol, naill ai drwy ddatganiad llafar neu Ddatganiad Ysgrifenedig Gweinidogol. Bydd y cyfyngiad ond yn berthnasol mewn achosion lle ceir effaith dreth 'negatif' – hynny yw, pan fo atebolrwydd newydd neu uwch ar drethdalwr mewn perthynas â'r dreth trafodiadau tir neu'r dreth gwarediadau tirlenwi. Er hynny, bydd y cyfyngiad yn dal i ganiatáu i Weinidogion Cymru ddefnyddio'r pŵer i wneud newidiadau gydag effaith ôl-weithredol ymhellach yn ôl na dyddiad unrhyw gyhoeddiad lle y mae'r newid hwnnw yn gostwng y dreth a godir. Er enghraifft, pe bai'n ymateb i newid i Gyllideb y DU, byddai hyn yn sicrhau bod trethdalwyr Cymreig yn gallu elwa ar y gostyngiad ar yr un pryd â threthdalwyr yn Lloegr.

### *Manteision*

8.23 Yn yr ymgynghoriad *Datganoli Treth: Ei gwneud yn bosibl cyflwyno newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru (2020)*<sup>25</sup>, nododd Llywodraeth Cymru dair mantais allweddol o ran cyflwyno Deddfau Trethi Cymru.

- Sicrhau bod adnoddau cyhoeddus yng Nghymru yn cael eu defnyddio'n fwy effeithlon ac effeithiol
- Cynyddu'r adnoddau sydd ar gael i gyrff cyhoeddus yng Nghymru fuddsoddi mewn gwella llesiant,
- Darparu gwell ysgogiadau cyllidol i Weinidogion Cymru a defnyddio'r ysgogiadau hyn i wella canlyniadau pobl Cymru.

8.24 Mae'r manteision hyn yn cyd-fynd â gofynion *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*<sup>26</sup> a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2016. Nod y Ddeddf yw gwella llesiant cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol yng Nghymru a helpu i greu gwlad rydym oll am fyw ynnddi, nawr ac yn y dyfodol.

8.25 Bwriedir i'r ddeddfwriaeth arfaethedig hon barhau i gefnogi manteision hysbys Deddfau Trethi Cymru yn y ffyrdd a ganlyn:

### **1. Sicrhau bod adnoddau cyhoeddus yng Nghymru yn cael eu defnyddio'n fwy effeithlon ac effeithiol**

---

<sup>25</sup> Gellir gweld Datganoli Trethi: Ei gwneud yn bosibl cyflwyno newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru (Gorffennaf 2020) yn: <https://llyw.cymru/ei-gwneud-yn-bosibl-cyflwyno-newidiadau-i-ddeddfau-trethi-cymru>

<sup>26</sup> Gellir gweld Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn: <https://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/contents/enacted/welsh>

8.26 Bwriedir i'r ddeddfwriaeth ddarparu dull ychwanegol o fynd i'r afael yn gyflym â gweithgarwch osgoi a nodir, gan sicrhau bod y rhai sy'n agored i dalu trethi datganoledig Cymru yn talu'r swm cywir ar yr adeg y'i bwriadwyd gan y Senedd wrth basio Deddfau Trethi Cymru.

## **2. Cynyddu'r adnoddau sydd ar gael i gyrff cyhoeddus yng Nghymru fuddsoddi mewn gwella llesiant**

8.27 Mae'r ddeddfwriaeth yn helpu i gyflawni'r nod o fabwysiadu system casglu a rheoli treth er mwyn cyflawni blaenoriaethau Cymru. Mae'n darparu dull ychwanegol er mwyn sicrhau y gall Gweinidogion Cymru wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru mewn ffordd hyblyg a chymesur, yn enwedig mewn ymateb i newidiadau i drethi rhagflaenol a wneir gan Lywodraeth y DU a allai effeithio ar adnoddau cyffredinol Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i ddiogelu ei chyllid a ddefnyddir i gyllido gwasanaethau cyhoeddus.

## **3. Darparu gwell ysgogiadau cyllidol i Weinidogion Cymru**

8.28 Nod y Bil yw sicrhau bod gan Weinidogion Cymru ysgogiad cyllidol ychwanegol i ymateb i amgylchiadau allanol a gwneud newidiadau drwy is-ddeddfwriaeth (gan ddefnyddio naill ai'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft neu'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed') mewn meysydd o Ddeddfau Trethi Cymru lle mai'r unig opsiwn ar hyn o bryd fyddai cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol, gydag amserlenni hwy, neu ddeddfwriaeth frys<sup>27</sup>.

8.29 Nodwedd allweddol o ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' o dan rai amgylchiadau yw y gellir rhoi effaith y newidiadau ar waith ar unwaith, gan gynyddu refeniw, neu ei leihau os mai polisi Llywodraeth Cymru yw gwneud hynny. Bydd hyn yn rhoi mwy o eglurder i drethdalwyr a'u cynrychiolwyr.

8.30 Bydd galluogi Llywodraeth Cymru i wneud newidiadau ar unwaith i'r trethi datganoledig yn lleihau'r effaith bosibl ar adnoddau cyffredinol Llywodraeth Cymru hefyd. Mae galluogi newidiadau deddfwriaethol i gael effaith ar unwaith hefyd yn sicrhau y gall trethdalwyr gael budd o'r newidiadau hynny cyn gynted â phosibl. Mae hyn yn sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn gallu rheoli'r gyllideb ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn well. Mae hyn yn unol â'r nod llesiant o greu Cymru ffyniannus, gan alluogi Gweinidogion Cymru i ddefnyddio gwell ysgogiadau cyllidol i wella canlyniadau pobl Cymru cyn gynted â phosibl.

8.31 At hynny, gallai'r pŵer cadarnhaol 'gwnaed' gael ei ddefnyddio hefyd mewn senarios lle mae gan Weinidogion Cymru bwerau i wneud

---

<sup>27</sup> Neu mewn rhai achosion y pwerau cadarnhaol drafft sy'n bodoli eisoes dim ond lle tybir bod angen cyflwyno'r newid ar unwaith.

rheoliadau eisoes ond bod angen gwneud newid brys. Er enghraifft, gall Gweinidogion Cymru gyflwyno rhyddhad newydd ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir drwy reoliadau eisoes. Fodd bynnag, mae cyflwyno rhyddhad newydd gan ddefnyddio pŵer cadarnhaol 'gwnaed' yn rhoi budd ychwanegol sef y gallai effaith y rhyddhad gael ei rhoi ar waith ar unwaith, yn hytrach nag unwaith y cwblheir y weithdrefn gadarnhaol ddrafft yn y Senedd, sy'n cymryd o leiaf dair wythnos eistedd, sy'n golygu bod trethdalwyr Cymreig yn gallu hawlio'r rhyddhad cyn gynted â phosibl (er bod angen cymeradwyaeth y Senedd o hyd er mwyn i'r rheoliadau barhau mewn grym).

- 8.32 Caiff y rhesymeg dros gyflwyno newid drwy reoliadau cadarnhaol 'gwnaed' newydd yn hytrach na phŵer cadarnhaol drafft i wneud rheoliadau sy'n bodoli eisoes ei nodi yn y Memorandwm Esboniadol pan gaiff y pŵer ei ddefnyddio. Bydd yn cynnwys materion fel: gweithredu ar frys, gwahaniaethau cystadleuol/afluniol rhwng trethi'r DU a threthi Cymreig, y dreth dan sylw, a diffyg llwybrau eraill, ar wahân i ddeddfwriaeth sylfaenol, i roi'r newid ar waith.
- 8.33 Yn olaf, mantais ychwanegol yw y bydd yr ysgogiad cyllidol gwell hwn yn sicrhau mwy o gydraddoldeb rhwng Gweinidogion Cymru a Llywodraeth y DU, gan fod Llywodraeth y DU eisoes yn gallu gwneud newidiadau i drethi sy'n bodoli eisoes ar unwaith drwy Ddeddf Casglu Trethi Dros Dro 1968. I'r gwrthwyneb, dim ond cyfraddau treth a bandiau treth y mae Deddfau Trethi Cymru yn caniatáu iddynt gael eu newid drwy reoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed'. Mae'r dull hwn yn fuddiol gan fod ymarferwyr treth yn gyfarwydd ag ef ac yn ei ddeall yn dda. Yn yr achosion brys hyn, bydd Gweinidog Cymru yn ysgrifennu at y Llywydd i'w hysbysu bod y weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' yn cael ei defnyddio. Hefyd, y cyfnod mwyaf y gall y cyfryw reoliadau barhau mewn grym heb gymeradwyaeth y Senedd fydd 60 o ddiwrnodau eistedd. Bydd hyn, er enghraifft, yn rhoi digon o amser i'r pwyllgorau perthnasol gymryd tystiolaeth ac ysgrifennu eu priod adroddiadau, ac i randdeiliaid gyflwyno sylwadau ar y newidiadau. Mewn llawer o sefyllfaoedd, bydd y Senedd yn cael mwy o gyfle i ystyried y newidiadau arfaethedig na Senedd y DU mewn perthynas â'i Biliau Cyllid neu newidiadau i drethi a wneir y tu allan i'r Deddfau Cyllid<sup>28</sup>.

## **Crynodeb**

- 8.34 Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir gan Lywodraeth Cymru. Ystyrir mai manteision yr opsiwn hwn yw y bydd yn sicrhau bod gan Weinidogion Cymru bwerau priodol a chymesur i wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru ar fyr rybudd o dan amgylchiadau penodol, gan sicrhau bod gan y Senedd ddigon o amser i graffu. Mae hyn yn arbennig o arwyddocaol

---

<sup>28</sup> Er enghraifft, Deddf Treth Dir y Dreth Stamp 2015 ([Deddf Treth Dir y Dreth Stamp 2015 \(legislation.gov.uk\)](http://legislation.gov.uk))

pan wneir newidiadau i drethi rhagflaenol y DU gan Lywodraeth y DU y gallai fod iddynt oblygiadau sylweddol i'r adnoddau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus hanfodol.

- 8.35 Y prif gostau fydd yn deillio o'r opsiwn hwn, unwaith y bydd y Bil sy'n darparu'r pwerau yn cael y Cydsyniad Brenhinol, fydd y costau gweinyddol i Lywodraeth Cymru ac Awdurdod Cyllid Cymru sydd ynghlwm wrth ddatblygu a chyflwyno is-ddeddfwriaeth. Bydd costau cydymffurfio hefyd, a chynnydd neu ostyngiad posibl mewn atebolrwydd treth i rai busnesau a dinasyddion. Fodd bynnag, nid yw'r costau hyn yn hysbys ar hyn o bryd a byddant yn dibynnu ar y newidiadau a wneir yn y dyfodol. Bydd asesiad effaith ar wahân, gan gynnwys costau amcangyfrifedig, yn cael ei gwblhau pan gaiff y pwerau gwneud rheoliadau a ddarperir eu defnyddio i wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru.

## 9. Aseu'r Gystadleuaeth

9.1 Ni ddisgwylir i'r Bil ei hun newid y gofynion sylfaenol ar fusnesau. Rhoddir ystyriaeth ddyledus i aseuadau o'r gystadleuaeth ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth ganlyniadol.

Prawf hidlo'r gystadleuaeth	
Cwestiwn	Rhowch ateb cadarnhaol neu negyddol
<b>C1:</b> Yn y farchnad/marchnadoedd yr effeithir arni/arnynt gan y rheoliad newydd, a oes gan unrhyw gwmni gyfran o'r farchnad sy'n fwy na 10%?	Nac oes
<b>C2:</b> Yn y farchnad/marchnadoedd yr effeithir arni/arnynt gan y rheoliad newydd, a oes gan unrhyw gwmni gyfran o'r farchnad sy'n fwy nag 20%?	Nac oes
<b>C3:</b> Yn y farchnad/marchnadoedd yr effeithir arni/arnynt gan y rheoliad newydd, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd gyfran o'r farchnad sy'n o leiaf 50%?	Nac oes
<b>C4:</b> A fyddai costau'r rheoliad yn effeithio llawer mwy ar rai cwmnïau o gymharu ag eraill?	Na
<b>C5:</b> A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y cwmnïau?	Nac ydy
<b>C6:</b> A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch i ddarpar gyflenwyr neu gyflenwyr newydd, nad oes rhaid i gyflenwyr presennol eu talu?	Na
<b>C7:</b> A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau rheolaidd uwch i ddarpar gyflenwyr neu gyflenwyr newydd, nad oes rhaid i gyflenwyr presennol eu talu?	Na
<b>C8:</b> A yw newid technolegol cyflym yn un o nodweddion y sector?	Nac ydy
<b>C9:</b> A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, ystod neu leoliad eu cynhyrchion?	Na

## 10. Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig

### Ymrwymiad Llywodraeth Cymru

- 10.1 Mae blaenoriaethau polisi trethi Llywodraeth Cymru yn cyd-fynd â'r ymrwymadau yn y Rhaglen Lywodraethu (2021)<sup>29</sup> i barhau i ddangos ei hymrwymiad i greu Cymru sy'n fwy cyfartal, yn decach ac yn fwy cyfiawn yn gymdeithasol. Gall trethiant datganoledig fod yn sbardun pwerus i ddylanwadu ar newid ymddygiad, yn ogystal â chynhyrchu refeniw i gefnogi gwariant cyhoeddus i ddiwallu anghenion Cymru, a'n galluogi i ddatblygu trethi mwy graddoledig. Mae hyn hefyd yn ein caniatáu i ddatblygu dull gweithredu mwy strategol o ran trethi canolog a lleol yng Nghymru, gan sicrhau ei bod yn gallu ymdrin yn well ag anghenion a blaenoriaethau dinasyddion a busnesau.
- 10.2 Mae'r ddeddfwriaeth sylfaenol hon yn cyfrannu at y nod llesiant cenedlaethol o 'Gymru ffyniannus', gan gydnabod rôl graidd trethiant o ran ariannu gwasanaethau cyhoeddus. Prif amcan y Bil yw rhoi mecanwaith cymesur i Weinidogion Cymru i ddiogelu'r refeniw Cymreig a godir drwy drethi datganoledig sydd ar gael ar gyfer ein gwasanaethau cyhoeddus hanfodol yng Nghymru ac i osgoi goblygiadau andwyol i fusnesau, y farchnad eiddo, a'r amgylchedd. Mae'r amcan hwn yn cyd-fynd yn amlwg â phump o'r saith nod llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

### Atal a'r tymor hir

- 10.3 Mae'r cynigion deddfwriaethol a gyflwynir gan y Bil hwn yn fesur ataliol tymor byr i alluogi Gweinidogion Cymru i ymateb yn ystwyth pan fydd angen newid Deddfau Trethi Cymru ar fyr rybudd. Mae'n amlwg bod angen yr ymyriad hwn i ddiogelu'r refeniw sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus hanfodol yng Nghymru. Ar hyn o bryd, bob tro y ceir cylch cyllideb yn y DU, mae risg y gallai newid gael ei wneud sy'n effeithio ar drethi datganoledig ac sy'n cael effaith gyllidebol uniongyrchol ar adnoddau. Mae hyn yn arbennig o wir wrth i fesurau adfer yn dilyn Covid barhau i gael eu rhoi ar waith.
- 10.4 Nod y Bil yw cydbwysu'r angen i fynd i'r afael â bwll yn y tymor byr – sef y diffyg mecanwaith i ymateb i angen dybryd i wneud newid i Ddeddfau Trethi Cymru. Bwriadwyd hefyd i'r ddeddfwriaeth fod yn ateb deddfwriaethol ymarferol i'r amgylchiadau presennol ar ein taith ddatganoli, wrth i atebion ar gyfer y tymor hwy gael eu pennu. Gellir

---

<sup>29</sup> Ar gael i'w gweld yn: <https://llyw.cymru/rhaglen-lywodraethu>



ystyried y ddeddfwriaeth yng nghyd-destun strategaeth dreth ehangach, gan gynnwys diwygio a chryfhau'r berthynas â llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig eraill.

- 10.5 Fel y nodir ym mharagraff 3.57, mae'r Bil hwn yn cynnwys cymal machlud sy'n cyfyngu ar oes y pŵer i wneud rheoliadau. Mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wedi ymrwymo i sefydlu pensaernïaeth hirdymor ar gyfer gwneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru, a fydd yn cynnwys ystyried yr angen am Fil Cyllid / Trethi blyneddol, neu reolaidd.

### **Cydweithio a chynnwys**

- 10.6 Yn dilyn cyflwyno'r dreth trafodiadau tir a'r dreth gwarediadau tirlenwi yn 2018, mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried, gyda chymorth ein rhanddeiliaid a'n partneriaid, beth fyddai'r dulliau cywir a phriodol i sicrhau y gellir gwneud newidiadau i "Ddeddfau Trethi Cymru" ar fyr rybudd o dan rai amgylchiadau. Mae'r cydweithio ar ddatblygu'r Bil hwn yn adlewyrchu natur dechnegol y cynigion. Cafodd ymgynghoriad polisi 2020 *Datganoli Trethi yng Nghymru – ymgynghoriad ar ei gwneud yn bosibl cyflwyno newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru*<sup>30</sup> nifer bach ond rhesymol o ymatebion gan gyrff treth a chyfrifyddiaeth proffesiynol yn bennaf. Mae'r cynnig polisi a'r darpariaethau deddfwriaethol drafft yn deillio o weithio'n agos a rhannu syniadau ac arbenigedd gyda rhanddeiliaid. Mae Awdurdod Cyllid Cymru hefyd wedi bod yn bartner allweddol sy'n ymwneud â datblygu'r cynnig a chynllunio'r modd y caiff ei gyflawni.
- 10.7 Mae ymgysylltu ehangach yn digwydd yn barhaus hefyd â rhanddeiliaid ynghylch trethiant datganoledig yn fwy cyffredinol, ac yn benodol ynghylch gweithrediad Awdurdod Cyllid Cymru, ac mae ymgysylltu eang â rhanddeiliaid mewnol yn digwydd hefyd. Cydnabyddir ei bod yn bwysig parhau i godi ymwybyddiaeth o drethi Cymreig, ac rydym yn canolbwyntio ar ddigwyddiadau cyllidol mawr, megis Cyllideb Cymru, er mwyn gwella dealltwriaeth o oblygiadau datganoli cyllidol i bobl a busnesau. Mae gennym bartneriaethau gweithio cryf ag Awdurdod Cyllid Cymru a CThEM er mwyn i wybodaeth allweddol allu cael ei rhannu'n gyflym ac yn effeithiol drwy sianeli gweithredol sefydledig. Mae'r rhain yn cynnwys gweithio gyda chyrrff proffesiynol a llunio gweminarau a fideos ar gyfer gweithwyr treth proffesiynol. Mae'r Grŵp Ymgysylltu ar Drethi yn ein galluogi i drafod datblygiadau o ran polisi trethi â'r rhai a all gynrychioli barn trethdalwyr Cymreig. Ceir manylion pellach am y gweithgarwch ymgysylltu yn fwy cyffredinol yn Adran 13 o'r Adroddiad ar Bolisi Trethi

---

<sup>30</sup> Mae *Datganoli Trethi yng Nghymru – Ei gwneud yn bosibl cyflwyno newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru* (Gorffennaf 2020) ar gael i'w weld yn: <https://llyw.cymru/ei-gwneud-yn-bosibl-cyflwyno-newidiadau-i-ddeddfau-trethi-cymru>

Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ar 21 Rhagfyr 2021<sup>31</sup>. Mae hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth fel y'i nodir yn Fframwaith Polisi Trethi Llywodraeth Cymru<sup>32</sup>, sydd wedi'i ddiweddarau.

## Effeithiau

- 10.8 Mae'r Bil yn gweithredu i roi pŵer i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth er mwyn ymateb i nifer o amgylchiadau allanol. Felly, nid oes unrhyw gostau gweinyddol uniongyrchol o ganlyniad i'r Bil. Bydd asesiad effaith cadarn ar wahân, gan gynnwys costau amcangyfrifedig, yn cael ei gwblhau pan gaiff y pwerau gwneud rheoliadau a ddarperir eu defnyddio i wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ynghylch cynnwys yr is-ddeddfwriaeth pan ystyrir ei bod yn briodol gwneud hynny. Bydd union natur yr ymgynghoriad yn cael ei benderfynu pan fydd y cynigion wedi'u ffurfioli.
- 10.9 Ochr yn ochr â'r costau a'r manteision a gyflwynir yn yr asesiad effaith rheoleiddiol drafft, ystyriwyd nifer o effeithiau posibl eraill a chynhaliwyd asesiad effaith integredig. Ceir crynodeb o'r asesiad effaith isod.
- 10.10 Mae'n ofynnol i'r Gweinidogion roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth gyflawni unrhyw rai o'u swyddogaethau. Mae canlyniadau'r asesiad hwn yn dangos nad oes unrhyw effeithiau negyddol posibl ar blant a phobl ifanc yn sgil y Bil. Yn ogystal, ni nodwyd unrhyw effeithiau penodol o ran hawliau Dinasyddion yr UE sy'n ymwneud â phobl ifanc hyd at 18 oed o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth hon. Mae'r asesiad effaith ar gael yn Atodiad 1 o'r Asesiad Effaith Integredig.
- 10.11 Daeth yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol i'r casgliad nad yw'r ddeddfwriaeth yn cael unrhyw effeithiau penodol ar bobl â nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Fodd bynnag, gallai peidio â gweithredu'r ddeddfwriaeth hon arwain at lai o refeniw i Lywodraeth Cymru yn y dyfodol. Byddai hyn, yn ei dro, yn golygu llai o gyllid i'w wario ar wasanaethau cyhoeddus Cymru. Gellid dadlau y byddai unrhyw ostyngiad mewn refeniw yn debygol o gael effaith neu anfantais fwy ac anghymesur ar aelwydydd incwm is yng Nghymru, gan fod y rhai sy'n elwa fwyaf ar wasanaethau cyhoeddus yn tueddu i fod y rhai ar incwm is na'r cyfartaledd. Mae rhai grwpiau gwarchoddedig yn fwy tebygol o fod yn y categori hwn. Felly, gellid ystyried bod cyflwyno'r Bil hwn a diogelu gwariant ar wasanaethau cyhoeddus yn gam

---

<sup>31</sup> Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru 2021 (Rhagfyr 2021): [Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru 2021 \(llyw.cymru\)](#)

<sup>32</sup> Mae'r Fframwaith Polisi Trethi (Tachwedd 2021) ar gael i'w weld yn: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-10/fframwaith-polisi-trethi.pdf>

cadarnhaol anuniongyrchol i'r grwpiau hyn. Mae asesiad effaith llawn ar gael ar gais.

- 10.12 Ystyriwyd cydnawsedd y Bil â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol cyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth. Mae'r dadansoddiad hwnnw wedi canfod nad yw'r Bil yn debygol o gynnwys darpariaethau sy'n anghydnaws â'r Confensiwn. Nid yw'r Bil yn cynnwys darpariaeth ar gyfer effaith ôl-weithredol. Cydnabyddir y gall deddfwriaeth sy'n effeithio ar drafodiadau neu ddigwyddiadau yn y gorffennol, hyd yn oed os nad yw'n dechnegol ôl-weithredol, gyffwrdd â'r hawliau a nodir yn Atodlen 1 i Ddeddf Hawliau Dynol 1998 ("hawliau'r Confensiwn"). Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y Bil yn taro cydbwysedd priodol rhwng rôl y ddeddfwrfa wrth graffu ar newidiadau i bolisi trethi, Rheol y Gyfraith a natur unigryw newidiadau polisi trethi a'u heffeithiau cyllidol ac economaidd uniongyrchol. Mae budd i'r cyhoedd mewn rheoli'r newidiadau hynny er mwyn cynnal cysondeb refeniw ac ariannu gwasanaethau cyhoeddus ehangach ac osgoi ansefydlogrwydd yn y farchnad. Nid yw'r dull a gynigir yn ddigynsail ac rydym o'r farn bod y dadleuon er budd y cyhoedd yn glir.
- 10.13 Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data a ddaeth i'r casgliad nad yw'r Bil yn creu unrhyw ofynion newydd sy'n ymwneud â phreifatrwydd na rhannu gwybodaeth. Ni fydd unrhyw effaith o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth hon.
- 10.14 Mae'r effaith ar y Gymraeg wedi'i harchwilio drwy Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a ddaeth i'r casgliad na fyddai'r ddeddfwriaeth yn cael unrhyw effaith benodol ar ddefnyddio'r Gymraeg nac ar gymunedau Cymraeg eu hiaith. Bydd y Bil yn helpu i weithredu'r trethi datganoledig yn effeithiol. Gall hyn, yn ei dro, helpu i gyflawni ein hamcanion polisi Cymraeg yn uniongyrchol. Mae asesiad effaith llawn ar gael ar gais.
- 10.15 Daeth ystyriaeth o effaith y ddyletswydd ar fioamrywiaeth, newid yn yr hinsawdd ac adnoddau naturiol i'r casgliad na fyddai unrhyw effaith negyddol ar y meysydd hyn. Nid oes angen Asesiad Amgylcheddol Strategol nac Asesiad o'r Effaith ar Gyllidebau Carbon.
- 10.16 Mae'r Asesiad statudol o'r Effaith ar Gyfiawnder (JIA) yn crynhoi canlyniad yr ymgysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, Daeth yr asesiad i'r casgliad nad yw'r cynigion yn debygol o gael unrhyw effaith ar y system gyfiawnder, neu mai effaith fach y byddent yn ei chael. Mae'r asesiad effaith ar gael yn Atodiad 2 o'r Asesiad Effaith Integredig.
- 10.17 Daeth yr asesiad sgrinio prawfesur gwledig i'r casgliad nad oes unrhyw effaith negyddol o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth hon.

10.18 Daeth asesiad effaith economaidd-gymdeithasol i'r casgliad nad oes unrhyw effaith negyddol o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth hon. Un o fanteision anuniongyrchol unrhyw reoliadau yn y dyfodol a alluogir gan y pwerau yn y ddeddfwriaeth hon fyddai diogelu refeniw Cymru ac, o ganlyniad, diogelu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys y potensial i ddiogelu trethdalwyr hefyd, pe baem yn cyflwyno newidiadau a oedd yn lleihau cyfraddau neu fandiau i sicrhau ein bod yn gystadleuol.

## **11. Adolygu ar ôl gweithredu**

- 11.1 Mae'r Bil yn rhoi pwerau i'w defnyddio yn y dyfodol drwy is-ddeddfwriaeth fel y bo angen. Fel y nodir ym mharagraff 3.50, rhoddir dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adolygu gweithrediaeth ac effaith y Ddeddf a chyhoeddi casgliadau'r adolygiad hwnnw cyn pen 4 blynedd o'r dyddiad y daeth y Ddeddf i rym. Cynhelir yr adolygiad fel un rhwymedigaeth benodol, ac nid yw'n ofynnol cynnal unrhyw adolygiadau pellach o'r ddeddfwriaeth.
- 11.2 Ar ôl i gasgliadau'r adolygiad gael eu cyhoeddi, bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi datganiad i gadarnhau a gaiff y rheoliadau a ganiateir drwy adran 7 o'r Bil i ymestyn oes y pŵer gwneud rheoliadau eu gwneud ai peidio.

## Atodiad 1 – Nodiadau Esboniadol

### BIL DEDDFAU TRETHI CYMRU etc. (PŴER I ADDASU)

---

#### NODIADAU ESBONIADOL

##### CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Bil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) ("y Bil") fel y'i cyflwynwyd i Senedd Cymru ar 13 Rhagfyr 2021. Fe'u lluniwyd gan Grŵp Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Bil.
2. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Bil ond nid ydynt yn rhan ohono. Ni fwriedir iddynt fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Bil. Pan fo adran neu ran o adran o'r Bil yn hunanesboniadol a phan ymddengys nad oes angen unrhyw esboniad neu sylw pellach, nis rhoddir.

##### CEFNDIR A CHRYNODEB O'R BIL

3. Mae Senedd Cymru ("y Senedd") wedi pasio tair Deddf sy'n ymwneud â threthu; Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 a Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017. Cyfeirir at y tair Deddf hyn gyda'i gilydd fel 'Deddfau Trethi Cymru' yn y Bil.
4. Mae'r Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud newidiadau, drwy reoliadau, i Ddeddfau Trethi Cymru a rheoliadau a wneir o dan y Deddfau hynny, os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn angenrheidiol neu'n briodol gwneud y newidiadau hynny at unrhyw un neu ragor o'r pedwar diben a bennir yn y Bil neu mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o'r dibenion hynny.
5. Gellir gwneud y rheoliadau naill ai o dan y weithdrefn gadarnhaol ddrafft, neu mewn achosion brys yn unig, o dan y weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' (trafodir hyn ymhellach isod).

Noder: paratowyd y ddogfen hon i helpu pobl i ddeall Bil Deddfau Treth Cymru etc. (Pŵer i Addasu).

Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

## SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

### Adran 1 – Pŵer i ddiwygio Deddfau Trethi Cymru etc.

6. Mae **adran 1(1)** yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n addasu Deddfau Trethi Cymru a rheoliadau a wneir odanynt os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried bod yr addasiadau'n angenrheidiol neu'n briodol at unrhyw un neu ragor o'r dibenion a ganlyn neu mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor ohonynt –

**Is-adran 1(1)(a)** – sicrhau na osodir treth trafodiadau tir a threth gwarediadau tirlenwi pan fyddai gwneud hynny yn anghydnaws ag unrhyw rwymedigaethau rhyngwladol. Gellid defnyddio'r pŵer yn adran 1 at y diben hwn, er enghraifft, pan ymrwymir i gytundeb masnach neu gytundeb trethiant dwbl â gwlad arall a phan fo gosod treth gwarediadau tirlenwi neu dreth trafodiadau tir mewn achos penodol yn groes i'r cytundeb hwnnw.

**Is-adran 1(1)(b)** – diogelu rhag osgoi trethi mewn perthynas â threth gwarediadau tirlenwi a threth trafodiadau tir. Efallai y bydd Gweinidogion Cymru am gymryd camau o'r fath pan fônt o'r farn y bydd diwygio'r ddeddfwriaeth yn sicrhau nad oes unrhyw amheuaeth ynghylch y ffordd y bwriedir ei chymhwyso, yn ogystal ag mewn achosion pan fanteisir ar fwllch amlwg.

**Is-adran 1(1)(c)** – ymateb i newidiadau a wneir i'r trethi rhagflaenol sy'n effeithio, neu a allai effeithio, ar y symiau a delir gan yr Ysgrifennydd Gwladol i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru. Diffinnir y trethi rhagflaenol yn adran 1(4) fel treth dir y dreth stamp a'r dreth dirlenwi.

**Is-adran 1(1)(d)** – ymateb i benderfyniad llys neu dribiwnlys sy'n effeithio, neu a allai effeithio, ar weithrediad Deddfau Trethi Cymru neu reoliadau a wneir o dan y Deddfau hynny. Ni fydd y penderfyniadau hyn o reidrwydd yn benderfyniadau ynghylch darpariaethau Deddfau Trethi Cymru eu hunain, neu eu rheoliadau cysylltiedig. Gall penderfyniadau sy'n effeithio ar y trethi rhagflaenol neu benderfyniadau ynghylch pwyntiau cyfreithiol cyffredinol hefyd effeithio ar weithrediad Deddfau Trethi Cymru a'u rheoliadau cysylltiedig.

7. Mae adran 1(2) yn gosod cyfyngiadau penodol ar y pŵer cyffredinol a ddarperir i Weinidogion Cymru gan adran 1. Nodir y cyfyngiadau hynny yn adran 2(3) ac fe'u trafodir ymhellach isod.
8. Mae adrannau 1(3) ac 1(4) yn darparu cyfres o ddiffiniadau.

Noder: paratowyd y ddogfen hon i helpu pobl i ddeall Bil Deddfau Treth Cymru etc. (Pŵer i Addasu).

Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

### **Adran 2 – Rheoliadau o dan adran 1 - atodol**

9. Mae adran 2(1) yn caniatáu i reoliadau a wneir gan ddefnyddio'r pŵer yn adran 1 osod treth gwarediadau tirlenwi a threth trafodiadau tir, gosod neu estyn cosb a chael effaith ôl-weithredol. Fodd bynnag, ni chaniateir y gallu i gyflwyno newidiadau'n ôl-weithredol mewn perthynas â gosod cosb newydd neu estyn cosb sydd eisoes wedi ei gosod.
10. Mae adran 2(2)(a) yn caniatáu i reoliadau a wneir gan ddefnyddio'r pŵer yn adran 1 wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol.
11. Mae adran 2(2)(b) yn caniatáu i reoliadau a wneir gan ddefnyddio'r pŵer yn adran 1 wneud darpariaeth gysylltiedig, ganlyniadol, atodol etc.
12. Nid yw adrannau 2(1) a 2(2) yn rhestr gynhwysfawr o'r hyn y caniateir i reoliadau a wneir gan ddefnyddio'r pŵer yn adran 1 ei wneud.
13. Mae adran 2(3)(a) yn atal y pŵer yn adran 1 rhag cael ei ddefnyddio i addasu Rhan 2 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016. Mae'r darpariaethau hynny'n ymwneud yn bennaf â chreu Awdurdod Cyllid Cymru a'i lywodraethiant.
14. Mae adran 2(3)(b) ac (c) yn atal y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 1 rhag cael ei ddefnyddio i addasu rheoliadau sy'n pennu cyfraddau a bandiau ar gyfer treth trafodiadau tir neu gyfraddau treth ar gyfer gwarediadau tirlenwi. Mae gan Weinidogion Cymru eisoes bŵer i addasu'r cyfraddau a'r bandiau treth hynny drwy reoliadau pellach, sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed'.
15. Mae adran 2(4) yn darparu nad yw'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 1 yn effeithio ar unrhyw bŵer arall sydd gan Weinidogion Cymru eisoes i wneud rheoliadau yn Neddfau Trethi Cymru. Yn yr un modd, nid yw gallu Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau gan ddefnyddio pwerau sydd ganddynt eisoes yn Neddfau Trethi Cymru yn effeithio ar y pŵer yn adran 1.

### **Adran 3 – Datganiad polisi: rheoliadau o dan Adran 1 sy'n cael effaith ôl-weithredol**

16. Mae adran 3(1) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi datganiad ynghylch eu polisi mewn cysylltiad ag arfer y pŵer i wneud rheoliadau sy'n cael effaith ôl-weithredol.

Noder: paratowyd y ddogfen hon i helpu pobl i ddeall Bil Deddfau Treth Cymru etc. (Pŵer i Addasu).

Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

17. Mae adran 3(2) yn darparu bod rhaid cyhoeddi'r datganiad cyn diwedd y cyfnod o dri mis sy'n dechrau â'r dyddiad y caiff y Bil y Cydsyniad Brenhinol.

18. Mae adran 3(3) yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddiwygio eu datganiad polisi. Os gwnânt hynny, rhaid cyhoeddi'r datganiad diwygiedig hwn.

#### **Adran 4 - Gweithdrefn ar gyfer rheoliadau o dan adran 1**

19. Mae adran 4(1) yn darparu bod y pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 1 yn arferadwy drwy offeryn statudol.

20. Mae adran 4(2) yn darparu y caniateir gwneud offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau o dan adran 1 naill ai o dan y weithdrefn gadarnhaol ddrafft neu, pan fo Gweinidogion Cymru o'r farn bod angen eu gwneud ar frys, o dan y weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed'.

21. O dan y weithdrefn gadarnhaol ddrafft, ni chaniateir gwneud offeryn statudol oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi. O dan y weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed', ar y llaw arall, caniateir gwneud offeryn statudol a chaniateir iddo ddod i rym cyn iddo gael ei gymeradwyo gan Senedd Cymru. Pan ddefnyddir y weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed', mae adran 4(4) yn darparu bod rhaid gosod yr offeryn gerbron Senedd Cymru, ac mae adran 4(5) yn darparu bod rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r rheoliadau o fewn cyfnod o 60 niwrnod ar y mwyaf<sup>33</sup> er mwyn i'r offeryn sydd wedi ei gynnwys yn y rheoliadau barhau i gael effaith ar ôl i'r cyfnod hwnnw ddod i ben. Mae adran 4(6) yn darparu, pan fo'r Senedd yn pleidleisio ar gynnig i gymeradwyo'r offeryn cyn diwedd y cyfnod o 60 niwrnod ac na chaiff yr offeryn ei gymeradwyo, y bydd y rheoliadau sydd wedi eu cynnwys yn yr offeryn yn peidio â chael effaith ar ddiwedd y diwrnod y cynhelir y bleidlais.

#### **Adran 5 - Rheoliadau'n peidio â chael effaith: atodol**

22. Mae adran 5 yn nodi'r hyn sy'n digwydd os yw offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau o dan adran 1 yn cael ei wneud o dan y weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' ond yn methu â chael cymeradwyaeth y Senedd (a'r rheoliadau sydd wedi eu cynnwys yn yr offeryn hwnnw felly'n peidio â chael effaith).

---

<sup>33</sup> Nid yw'r cyfnod o 60 niwrnod yn cynnwys unrhyw gyfnod pan fo Senedd Cymru wedi ei diddymu neu pan fo ar doriad am fwy na 4 diwrnod



Noder: paratowyd y ddogfen hon i helpu pobl i ddeall Bil Deddfau Treth Cymru etc. (Pŵer i Addasu).

Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

23. Mae adran 5(2) yn darparu bod unrhyw atebolrwydd, neu atebolrwydd uwch, i dreth trafodiadau tir neu dreth gwarediadau tirlenwi na fyddai wedi codi oni bai am y rheoliadau i'w drin fel pe na bai erioed wedi codi.
24. Mae adran 5(3) yn darparu bod unrhyw dynnu yn ôl hawlogaeth i gredyd treth, neu leihau hawlogaeth o'r fath (mewn perthynas â threth gwarediadau tirlenwi), na fyddai wedi digwydd oni bai am y rheoliadau i'w drin fel pe na bai erioed wedi digwydd.
25. Mae adran 5(4) yn darparu bod unrhyw atebolrwydd i gosb, neu gynyddu swm cosb, na fyddai wedi digwydd oni bai am y rheoliadau i'w drin fel pe na bai erioed wedi digwydd.
26. Mae adran 5(5) yn darparu nad yw'r ffaith bod y rheoliadau wedi peidio â chael effaith yn effeithio ar unrhyw beth a wnaed o dan y rheoliadau neu drwy ddibynnu arnynt. Bydd hyn yn sicrhau nad yw camau a gymerir gan y trethdalwr yn unol â'r rheoliadau yn ystod y cyfnod pan fônt yn cael effaith yn anghyfreithlon, ac yn yr un modd bydd hefyd yn diogelu camau a gymerir gan Awdurdod Cyllid Cymru.

#### **Adran 6 - Dehongli**

27. Mae adran 6 yn dehongli geiriau ac ymadroddion penodol o fewn y Bil, gan gynnwys bod ystyr "addasu" yn cynnwys diwygio (er enghraifft ychwanegu at neu amnewid), diddymu a dirymu a bod "addasiadau" i'w ddehongli yn unol â hynny.

#### **Adran 7 - Dod i rym**

28. Mae adran 7 yn darparu bod y Ddeddf hon yn dod i rym ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y mae'n cael Cydsyniad Brenhinol.

#### **Adran 8 - Enw byr**

29. Mae adran 8 yn darparu mai enw byr y Ddeddf hon yw Deddf Trethi Cymru etc (Pŵer i Addasu) 2022.

## Atodiad 2 – Mynegai o ofynion y Rheolau Sefydlog

Tabl 2: Mynegai o ofynion y Rheol Sefydlog

Rheol sefydlog		Adran	Tudalennau
26.6(i)	Datgan y byddai darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.	Datganiad yr Aelod	Tud 1
26.6(ii)	Nodi amcanion polisi y Bil.	Pennod 3 – Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael	Tud 4, para 3.1 – 3.4
26.6(iii)	Nodi a gafodd ffyrdd eraill o wireddu'r amcanion polisi eu hystyried ac, os felly, pam y cafodd yr ymagwedd a gymerir yn y Bil ei mabwysiadu.	Rhan 2 – Aseiad Effaith Rheoleiddiol	Tud 31, para 7.1 Tud 33-34, Para 7.9 – 7.10
26.6(iv)	Nodi'r ymgynghori a gafwyd, os cafwyd unrhyw ymgynghori o gwbl, ar y canlynol: (a) amcanion polisi y Bil a'r ffyrdd o'u gwireddu; (b) manylion y Bil, ac (c) Bil drafft, naill ai yn llawn neu'n rhannol (ac os yn rhannol, pa rannau).	Pennod 4 – Ymgynghori	Tud 19 para 4.1 – 4.2 Tud 22, para 4.14

Noder: paratowyd y ddogfen hon i helpu pobl i ddeall Bil Deddfau Treth Cymru etc. (Pŵer i Addasu).  
Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

Rheol sefydlog		Adran	Tudalennau
26.6(v)	Nodi crynodeb o ddeiliant yr ymgynghori hwnnw, gan gynnwys sut a pham y mae unrhyw Fil drafft wedi cael ei ddiwygio.	Pennod 4 – Ymgynghori	Tud 20-22 para 4.3-4.13
26.6(vi)	Os na chyhoeddwyd y Bil, neu ran o'r Bil, yn flaenorol fel drafft, datgan y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.	Pennod 4 – Ymgynghori	Tud 22, para 4.14
26.6(vii)	Crynhoi yn wrthrychol yr hyn y bwriedir i bob un o ddarpariaethau'r Bil ei wneud (i'r graddau y mae angen esbonio hynny neu y mae angen cyflwyno sylwadau ar hynny) a rhoi'r wybodaeth arall sy'n angenrheidiol i esbonio effaith y Bil.	Atodiad 1 – Nodiadau Esboniadol	Tud 52 - 56
26.6(viii)	Nodi'r amcangyfrifon gorau o'r canlynol: (a) y costau gweinyddol gros, y costau cydymffurfio gros a'r costau gros eraill y byddai darpariaethau'r Bil yn arwain atynt; (b) yr arbedion gweinyddol y byddai'r Bil yn arwain atynt; (c) costau gweinyddol net darpariaethau'r Bil; (d) dros ba gyfnodau amser y disgwyliid i'r holl gostau ac arbedion hynny godi; ac (e) ar bwy y byddai'r costau'n syrthio.	Rhan 2 – Aseiad Effaith Rheoleiddiol	Tud 27

Noder: paratowyd y ddogfen hon i helpu pobl i ddeall Bil Deddfau Treth Cymru etc. (Pŵer i Addasu).  
Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

Rheol sefydlog		Adran	Tudalennau
26.6(ix)	Nodi unrhyw fanteision ac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol sy'n deillio o'r Bil na ellir eu mesur yn ariannol.	Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol	Tud 42-44, Para 8.23 – 8.33
26.6(x)	Os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth, nodi mewn perthynas â phob darpariaeth o'r fath: <p>(a) y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo ac ym mha fodd y mae'r pŵer i gael ei arfer;</p> <p>(b) pam y bernir ei bod yn briodol dirprwyo'r pŵer; a</p> <p>(c) gweithdrefn y Senedd (os oes un) y mae'r is-ddeddfwriaeth a wnaed neu sydd i'w gwneud wrth arfer y pŵer i fod yn ddarostyngedig iddi, a pham y barnwyd ei bod yn briodol iddi fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn honno (ac nid ei gwneud yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn arall).</p>	Pennod 5 – Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth	Tud 22, para 5.1
26.6(xi)	Os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, ymgorffori adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n nodi ei farn ef neu hi ar a yw'r tâl yn briodol neu beidio.	Nid yw'r gofyniad yn Rheol Sefydlog 26.6(xi) yn gymwys i'r Bil hwn	

Noder: paratowyd y ddogfen hon i helpu pobl i ddeall Bil Deddfau Treth Cymru etc. (Pŵer i Addasu).  
Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

Rheol sefydlog		Adran	Tudalennau
26.6(xii)	Nodi'r effaith bosibl (os o gwbl) ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr yn sgil darpariaethau'r Bil ("asesiad effaith ar gyfiawnder"), yn unol ag adran 110A o'r Ddeddf	Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol	Tud 50, para 10.16
26.6B	Pan fo darpariaethau'r Bil yn deillio o ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol, boed at ddibenion diwygio neu gydgyrnhoi, rhaid darparu tabl tarddiadau i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol er mwyn esbonio'n glir beth yw'r berthynas rhwng y Bil a'r fframwaith cyfreithiol presennol.	Nid yw'r gofyniad yn Rheol Sefydlog 26.6B ar gyfer Tabl Deilliadau yn gymwys i'r Bil hwn gan fod y Bil yn ddarn annibynnol o ddeddfwriaeth	
26.6C	Pan fo'r Bil yn cynnig diwygio deddfwriaeth sylfaenol bresennol yn sylweddol, rhaid darparu atodlen i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol, yn nodi geiriad y ddeddfwriaeth bresennol sy'n cael ei diwygio gan y Bil, ac yn nodi'n eglur sut y caiff y geiriad hwnnw ei ddiwygio gan y Bil	Nid yw'r gofyniad yn Rheol Sefydlog 26.6C yn gymwys i'r Bil hwn	